**Rhif: 1**

| | |
|---|---|
| **Rhif y Cais:** | **C23/0302/22/LL** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **17/04/23** |
| **Math y Cais:** | **Llawn** |
| **Cymuned:** | **Llanllyfni** |
| **Ward:** | **Penygroes** |
| **Bwriad:** | **Cais am estyniad i bwll tywod a graean Cae Efa Lwyd** |
| **Lleoliad:** | **Chwarel Cae Efa Lwyd, Penygroes, LL54 6PB** |
| **Crynodeb o'r Argymhelliad:** | **CANIATÁU GYDAG AMODAU** |

**1. Disgrifiad:**

1.1 Mae hwn yn gais am estyniad i'r man cloddio ym mhwll tywod a graean Cae Efa Lwyd. Mae Cae Efa Lwyd yn bwll tywod a graean gweithredol sydd wedi'i leoli ar dir amaethyddol i'r gorllewin o bentref Pen-y-groes gyda mynediad i gerbydau oddi ar Ffordd Clynnog (priffordd gyhoeddus Dosbarth 3). O dan y caniatadau cynllunio presennol, mae mwynau wedi'u cloddio fesul cyfnod ar y safle a'u cludo ar hyd y briffordd gyhoeddus i Gefn Graianog i'w prosesu a'u gwerthu. Nid yw'r estyniad arfaethedig i'r man cloddio na'r caniatadau cynllunio presennol yn darparu unrhyw gyfleoedd ar gyfer sgrinio, malu, golchi neu osod unrhyw beiriannau ar safle Cae Efa Lwyd. Bydd y gorsborion a'r pridd a dynnir oddi ar y mannau gweithio yn cael eu storio ar y safle mewn byndiau sgrinio cyn eu defnyddio i adfer y safle yn dilyn diwedd y gweithrediadau cloddio mwynau.

1.2 Bydd yr estyniad arfaethedig i'r man cloddio yn ymestyn y safle tua'r gogledd, gan gwmpasu arwynebedd o 4.1ha, a lefel isaf y cloddio fydd 93m-95m aOD. Bydd hyn yn rhyddhau tua 792,803 o dunelli o dywod a graean yn ychwanegol at y 298,000 o dunelli sy'n weddill o fewn y man cloddio presennol sydd â chaniatâd (gan roi cyfanswm o 1.1 miliwn o dunelli o fwynau i'w cloddio ar y safle). Bydd terfyn o 125,000 o dunelli y flwyddyn ar y mwynau a gloddir ar y safle a bydd yn cymryd tua 10 mlynedd i gwblhau'r cloddio (ar y cyd â'r mwynau presennol sydd â chaniatâd). Bwriedir parhau i ddefnyddio'r fynedfa i gerbydau a gwblhawyd ym Mawrth 2019 o dan gyfeirnod caniatâd cynllunio C17/0455/22/LL.

1.3 Mae Datganiad Amgylcheddol gyda'r cais hwn ac mae'n destun Datganiad Effaith Amgylcheddol yn dilyn barn sgrinio a chwmpasu yn unol â gofynion Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017.

**2. Polisïau Perthnasol::**

2.1 Mae Adran 38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys y Polisi Cynllunio Cenedlaethol a'r Cynllun Datblygu Lleol.

2.2 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chamau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r saith nod llesiant sydd yn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy', fel sydd wedi'i nodi yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

2.3 **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn 2011-2026 a fabwysiadwyd ar 31 Gorffennaf 2017**

PS1: Yr Iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig
PS 4: Trafnidiaeth gynaliadwy, datblygiad a hygyrchedd
TRA 2 Safonau parcio
TRA 4: Rheoli Ardrawiadau Trafnidiaeth
PS 5: Datblygiad cynaliadwy
PS 6: Lliniaru effeithiau newid hinsawdd
PCYFF 1: Ffiniau Datblygu
PCYFF 2: Meini Prawf Datblygu

PCYFF 3: Dylunio a siapio lle
PCYFF 4: Dylunio a thirweddu
PCYFF 5: Rheoli Carbon
PCYFF 6: Cadwraeth dŵr
PS 13: Darparu cyfleoedd ar gyfer economi ffyniannus
PS 19: Cadw a lle bo'n briodol gwella'r amgylchedd naturiol.
AMG 2: Ardaloedd o Dirwedd Arbennig
AMG 5: Chynlluniau Cadwraeth Bioamrywiaeth
AMG 6: Gwarchod Safleoedd o Arwyddocâd Rhanbarthol neu Leol
PS20: Cadw a lle bo'n briodol gwella asedau treftadaeth
AT 1: Ardaloedd Cadwraeth, Safleoedd Treftadaeth y Byd a Thirweddau Cofrestredig, Parciau a Gerddi
AT 4: Diogelu safleoedd archeolegol nad ydynt wedi'u dynodi a'u gosodiad
PS 22: Mwynau
MWYN 1: Diogelu adnoddau mwynau
MWYN 2: Ardaloedd a Ffefrir
MWYN 3: Datblygiadau Mwynau
MWYN 5: Cylchfeydd Rhagod o amgylch Safleoedd Mwynau
MWYN 9: Adfer ac ôl-ofal

Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA): Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru
CCA - Cynnal a chreu cymunedau ffyniannus a chynaliadwy

2.4 **Polisïau Cenedlaethol:**

Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 12 - Chwefror 2024)
Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040
Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1 (NCTM1) Agregau
Nodyn Cyngor Technegol 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio
Nodyn Cyngor Technegol 11: Sŵn
Nodyn Cyngor Technegol 18: Cludiant
Nodyn Cyngor Technegol 23: Datblygiad Economaidd
Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol

## 3. Hanes Cynllunio Perthnasol:

C19/0852/22/AC *'Cyflawni amodau 1 (Hysbysiad ysgrifenedig am gychwyn datblygiad), 2 (Hysbysiad ysgrifenedig am gychwyn datblygiad), 8 (Cwblhau mynedfa), 27 a 28 (Adfer ac ôl-ofal), 37 (Moch Daear), 38 (Archeoleg), 40 (Olew a thanwydd), 41 a 42 (Rheoli dŵr wyneb) ar benderfyniad ROMP C13/0217/22/MW'* – Amodau wedi'u cyflawni'n ffurfiol ar 09/10/2019.

C18/1190/22/AC *'Cyflawni amodau 1, 3, 7, 11, 14, 23, 24, 27 a 28 ar Ganiatâd Cynllunio C17/0455/22/LL (Amod 1 – Hysbysiad ysgrifenedig am gychwyn, Amod 3 – Hysbysiad ysgrifenedig am gychwyn gweithgareddau penodol, Amod 7 – Lleoliad a manylion y cyfleuster golchi olwynion, Amod 11 – Cynllun storio pridd, Amod 14 – Cynigion ar gyfer adfer ac ôl-ofal, Amod 23 – Moch Daear, Amod 24 – Archeoleg, Amod 27 a 28 – Hydroleg (rheoli dŵr wyneb)'* - Amodau wedi'u cyflawni'n ffurfiol ar 04/02/2019.

C17/0455/22/LL *'Ffurfio mynedfa i gerbydau i bwll tywod a graean Cae Efa Lwyd o'r Brifford Sirol Dosbarth 3 yn Allt Goch a gwaith peirianegol cysylltiedig.'* – Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar 18/12/2017.

C13/217/22/MW '*Deddf yr Amgylchedd 1995. Cais am benderfynu amodau er mwyn ailgychwyn gweithio safle tywod a graean segur o dan ganiatâd cynllunio 2250 dyddiedig 10 Rhagfyr 1951 – rhif cae 297, Cae Efa Lwyd, Pen-y-groes'* – Caniatawyd o dan ganiatâd rhif 2250 o dan atodlen o amodau a addaswyd ar 20/12/2017.

2250 'Bwriad i ailagor pwll graean presennol ar Gae rhif 297 ac i weithio Caeau rhifau 155, 298 a 298a, yn Cae Efa Lwyd Fawr, Pen-y-groes' – Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar 10/12/1951.

**4. Ymgyngoriadau:**

**Cyngor Cymuned:** **<u>Cafwyd ymateb ar 11/05/2023:</u>**

Sylwadau a oedd yn gofyn am y gallu i ymestyn amodau a osodwyd ar y caniatâd cynllunio presennol i gynnwys y cais newydd.

**Yr Uned Drafnidiaeth:** **<u>Cafwyd ymateb ar 09/05/2023:</u>**

Nid wyf yn gwrthwynebu'r cynnydd arfaethedig o 20 i 25 o lwythi Cerbydau Nwyddau Trwm y diwrnod.

**Yr Uned Hawliau Tramwy:** **<u>Cafwyd ymateb ar 28/11/2023:</u>**

Sylwadau – Cyfeiriaf at y cais a nodwyd uchod. Nid yw'n ymddangos bod y cais hwn yn effeithio ar unrhyw Hawliau Tramwy a gofnodwyd.

**Cyfoeth Naturiol Cymru:** **<u>Cafwyd ail ymateb ar 20/11/2023:</u>**

Diolch i chi am ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)/Natural Resources Wales (NRW) ynghylch y wybodaeth ychwanegol i ategu'r uchod a gawsom ar 31 Hydref 2023. Mae gennym bryderon o hyd ynghylch y cais a gyflwynwyd. Er hynny, rydym yn fodlon y gellir datrys y pryderon hyn drwy osod yr amod canlynol i ddiogelu dŵr daear ar unrhyw ganiatâd cynllunio a roddir. Mae'n bwysig nodi os na fydd yr amod hwn wedi'i gynnwys y byddem yn gwrthwynebu'r cais cynllunio hwn. Mae rhagor o fanylion wedi'u darparu isod.

<u>Diogelu Dŵr Daear</u>

Rydym wedi adolygu'r wybodaeth ganlynol:

1. Datganiad Amgylcheddol. Kedd Cyfyngedig, Chwefror 2023

2. Asesiad Effaith Hydroddaearegol – Chwarel Penygroes. Hafren Water Cyfyngedig, Cyfeirnod Adroddiad: 3013/HIA Fersiwn

derfynol F2, Tachwedd 2022.

3. E-bost dyddiedig 16/10/23 (17:30) oddi wrth Lian Toland at Rhys Cadwaladr. Ynghylch: Cais am estyniad i bwll tywod a graean Cae Efa Lwyd – Cyfeirnod: C23/0302/22/LL.

Rydym yn nodi'r ailadrodd am weithio uwchben y lefel trwythiad gyda chlustogfa heb ddŵr o 1 metr. Roeddem wedi cynghori o'r blaen y dylid cyflwyno manylion am waith monitro parhaus er mwyn sicrhau bod y gwaith cloddio mwynau yn aros 1 metr uwchlaw'r lefel trwythiad lleol. Mae'r e-bost dyddiedig 16/10/23 (17:30) oddi wrth Lian Toland at Rhys Cadwaladr yn egluro y bydd y rhwydwaith presennol ar gyfer monitro dŵr daear yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod y glustogfa o 1m uwchlaw'r lefel trwythiad yn cael ei chadw. Mae'r e-bost yn awgrymu wedyn y gellid gwirio hyn yn flynyddol drwy osod amod. Rydym yn cynghori y dylid gweithredu hyn a'i sicrhau drwy gynnwys amod â geiriad addas mewn unrhyw ganiatâd a roddir. Dylai'r ymgeisydd hysbysu'r ACLl (a CNC) ar unwaith os ceir bod y glustogfa o 1m uwchlaw'r lefel trwythiad wedi cael ei bylchu.

<u>Safleoedd Gwarchodedig</u>

Nodwn fod arolygon trawslun o ystlumod ac arolygon o weithgarwch ystlumod wedi'u cynnal ar y safle rhwng Mehefin a Medi yn y blynyddoedd 2020 a 2022, a bod 6 rhywogaeth o ystlumod wedi'u cofnodi yn ystod yr arolygon. Er nad oedd yr arolygon a gynhaliwyd wedi darganfod yr ystlum Pedol Lleiaf, rydym yn nodi bod Ardal Cadwraeth Arbennig Glynllifon a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Glynllifon yn agos (<1km), ac felly rydym yn croesawu'r cynigion ar gyfer adfer y safle, yn enwedig bod coridor coetir cydgysylltiol wedi'i gynnwys ym mhen gogleddol y safle datblygu. Nodwn fod cynlluniau adfer diwygiedig wedi'u cyflwyno sydd yn cynnwys rhywfaint o blannu yng nghyfnod 2, er mwyn sefydlu nodweddion cysylltiol a allai gael eu defnyddio gan ystlumod. Fel yr awdurdod cymwys o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd), cyn penderfynu a fydd yn rhoi caniatâd ar gyfer prosiect sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar safle ACA/AGA/Ramsar, un ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill, rhaid i'ch awdurdod wneud asesiad priodol o oblygiadau'r prosiect i'r safle hwnnw o ystyried yr amcanion cadwraeth ar ei gyfer. I ddibenion yr asesiad, rhaid i chi ymgynghori â CNC a rhoi sylw i unrhyw sylwadau y byddwn yn eu cyflwyno o fewn cyfnod rhesymol a gaiff ei bennu gennych chi. Os na wneir yr asesiad hwnnw, ni fydd CNC yn gallu rhoi gwybod na fyddai'r cynigion yn arwain at effaith anffafriol ar y safle ACA/AGA /Ramsar. Ar yr amod bod y llwybrau effeithiau ar gyfer yr ACA y cyfeiriwyd atynt uchod yn cael sylw digonol, mae CNC o'r farn y bydd nodweddion y SoDdGA yn cael

eu diogelu'n ddigonol hefyd.

Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop

Rydym yn eich cyfeirio at ein cyngor yn yr adran Safleoedd Gwarchodedig uchod ac nid oes gennym sylwadau eraill am Rywogaethau a Warchodir gan Ewrop.

Tirweddau Gwarchodedig

Mae safle'r cais yn 3.2km oddi wrth Barc Cenedlaethol Eryri ac yn 2.1km oddi wrth Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Llŷn. Nid ydym yn credu y byddai'r datblygiad a gynigir yn mynd yn groes i bwrpas y Parc Cenedlaethol / AHNE. Er hynny, rydym yn eich cynghori i gydgysylltu â'ch tîm cynghorol mewnol ar y dirwedd ynghylch unrhyw effeithiau ar y dirwedd leol.

Draenio Dŵr Wyneb

Mae'r safle o fewn Parth A yn y Mapiau Cyngor Datblygu sydd yn Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd (Gorffennaf 2004). Mae TAN15 yn nodi, mewn perthynas â datblygiad sydd ym Mharth A, nad yw'r prawf cyfiawnhad yn gymwysadwy a bod gofynion o ran dŵr wyneb yn gymwys. Y maen prawf ar gyfer derbynioldeb yw na fydd llifogydd yn cynyddu mewn man arall o ganlyniad i'r datblygiad. Gan fod y datblygiad wedi'i leoli ym Mharth A, rydym yn cynghori y dylid asesu'r gofynion o ran dŵr wyneb. Nodwn mai mater i Adran Draenio Tir yr Awdurdod yw gwneud sylwadau am addasrwydd y cynigion hyn.

Materion Eraill

Mae ein sylwadau uchod yn ymwneud yn benodol ac yn gyfan gwbl â materion sydd ar ein rhestr wirio, Gwasanaeth Cynghori ar Gynlluniau Datblygu: Pynciau Ymgynghori (Medi 2018), a gyhoeddwyd ar ein gwefan. Nid ydym wedi ystyried effeithiau posibl ar faterion eraill ac nid ydym yn diystyru'r posibilrwydd y bydd y datblygiad arfaethedig yn gallu effeithio ar fuddiannau eraill. Rydym yn cynghori mai'r ymgeisydd sy'n gyfrifol am sicrhau'r holl drwyddedau/caniatadau eraill sy'n berthnasol i'w ddatblygiad, yn ogystal â chaniatâd cynllunio. Gweler ein gwefan am ragor o fanylion. Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am yr uchod, cysylltwch â ni rhag blaen.

**Yr ymateb cyntaf a gafwyd ar 24/05/2023:**

Diolch i chi am yr ymgynghoriad â Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales ynghylch yr uchod a dderbyniwyd ar 21 Ebrill 2023. Mae gennym bryderon ynghylch y cais a gyflwynwyd am nad yw gwybodaeth ddigonol wedi'i darparu i ategu bwriad y cais. Er mwyn datrys y pryderon hyn, dylech ofyn am wybodaeth

ychwanegol gan yr ymgeisydd ynghylch diogelu dŵr daear. Os na ddarperir y wybodaeth hon, byddem yn gwrthwynebu'r cais cynllunio hwn. Mae rhagor o fanylion wedi'u darparu isod.

Diogelu Dŵr Daear

Rydym wedi adolygu'r wybodaeth ganlynol:

1. Datganiad Amgylcheddol. Kedd Cyfyngedig, Chwefror 2023

2. Asesiad Effaith Hydroddaearegol – Chwarel Penygroes. Hafren Water Cyfyngedig, Cyfeirnod Adroddiad: 3013/HIA Fersiwn derfynol F2, Tachwedd 2022.

Rydym yn nodi'r ailadrodd am weithio uwchben y lefel trwythiad gyda chlustogfa heb ddŵr o 1 metr. Fodd bynnag, nid oes eglurhad ynghylch sut bydd hyn yn cael ei wirio a'i gyflawni. Mae rhwydwaith monitro dŵr daear ar y safle – a fydd hwn yn cael ei gadw er mwyn sicrhau bod y glustogfa heb ddŵr o 1 metr yn cael ei chynnal wrth gloddio'r mwynau? Rydym yn cynghori y dylai'r ymgeisydd ddarparu manylion am y dull monitro parhaus a fydd yn cael ei ddefnyddio ar y safle i sicrhau bod y gwaith cloddio mwynau yn aros 1 metr uwchlaw'r lefel trwythiad leol er mwyn ategu'r cais hwn.

Safleoedd Gwarchodedig

Nodwn fod arolygon trawslun o ystlumod ac arolygon o weithgarwch ystlumod wedi'u cynnal ar y safle rhwng Mehefin a Medi yn y blynyddoedd 2020 a 2022, a bod 6 rhywogaeth o ystlumod wedi'u cofnodi yn ystod yr arolygon. Er nad oedd yr arolygon a gynhaliwyd wedi darganfod yr ystlum Pedol Lleiaf, rydym yn nodi bod Ardal Cadwraeth Arbennig Glynllifon a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Glynllifon yn agos (<1km), ac felly rydym yn croesawu'r cynigion ar gyfer adfer y safle, yn enwedig bod coridor coetir cydgysylltiol wedi'i gynnwys ym mhen gogleddol y safle datblygu. Mae'r mesurau i liniaru'r effaith ar y dirwedd yn cynnwys y defnydd o gamau adfer graddol. Fodd bynnag , ni fyddai'r camau sydd wedi'u dangos a'u disgrifio yn y cynlluniau fesul cam yn cael eu hystyried yn fesurau adfer llawn. Nid oes cynigion i blannu coed neu lwyni tan ar ôl y cam olaf (Cam 4). Felly rydym yn argymell cynnwys plannu coed/gwrychoedd yn y camau cynharach, lle bynnag y bo'n ymarferol (e.e., yn rhan orllewinol y safle), er mwyn cynnwys nodweddion cysylltiol a allai gael eu defnyddio gan ystlumod. Fel yr awdurdod cymwys o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd), cyn penderfynu a fydd yn rhoi caniatâd ar gyfer prosiect sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar safle ACA/AGA/Ramsar, un ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill, rhaid i'ch awdurdod

wneud asesiad priodol o oblygiadau'r prosiect i'r safle hwnnw o ystyried yr amcanion cadwraeth ar ei gyfer. I ddibenion yr asesiad, rhaid i chi ymgynghori â CNC a rhoi sylw i unrhyw sylwadau y byddwn yn eu cyflwyno o fewn cyfnod rhesymol a gaiff ei bennu gennych chi. Os na wneir yr asesiad hwnnw, ni fydd CNC yn gallu rhoi gwybod na fyddai'r cynigion yn arwain at effaith anffafriol ar y safle ACA/AGA /Ramsar. Ar yr amod bod y llwybrau effeithiau ar gyfer yr ACA y cyfeiriwyd atynt uchod yn cael sylw digonol, mae CNC o'r farn y bydd nodweddion y SoDdGA yn cael eu diogelu'n ddigonol hefyd.

Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop

Rydym yn eich cyfeirio at ein cyngor yn yr adran Safleoedd Gwarchodedig uchod ac nid oes gennym sylwadau eraill am Rywogaethau a Warchodir gan Ewrop.

Tirweddau Gwarchodedig

Mae safle'r cais yn 3.2km oddi wrth Barc Cenedlaethol Eryri ac yn 2.1km oddi wrth Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Llŷn. Nid ydym yn credu y byddai'r datblygiad a gynigir yn mynd yn groes i bwrpas y Parc Cenedlaethol / AHNE. Er hynny, rydym yn eich cynghori i gydgysylltu â'ch tîm cynghorol mewnol ar y dirwedd ynghylch unrhyw effeithiau ar y dirwedd leol.

Draenio Dŵr Wyneb

Mae'r safle o fewn Parth A yn y Mapiau Cyngor Datblygu sydd yn Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd (Gorffennaf 2004). Mae TAN15 yn nodi, mewn perthynas â datblygiad sydd ym Mharth A, nad yw'r prawf cyfiawnhad yn gymwysadwy a bod gofynion o ran dŵr wyneb yn gymwys. Y maen prawf ar gyfer derbynioldeb yw na fydd llifogydd yn cynyddu mewn man arall o ganlyniad i'r datblygiad. Gan fod y datblygiad wedi'i leoli ym Mharth A, rydym yn cynghori y dylid asesu'r gofynion o ran dŵr wyneb. Nodwn mai mater i Adran Draenio Tir yr Awdurdod yw gwneud sylwadau am addasrwydd y cynigion hyn.

Materion Eraill

Mae ein sylwadau uchod yn ymwneud yn benodol ac yn gyfan gwbl â materion sydd ar ein rhestr wirio, Gwasanaeth Cynghori ar Gynlluniau Datblygu: Pynciau Ymgynghori (Medi 2018), a gyhoeddwyd ar ein gwefan. Nid ydym wedi ystyried effeithiau posibl ar faterion eraill ac nid ydym yn diystyru'r posibilrwydd y bydd y datblygiad arfaethedig yn gallu effeithio ar fuddiannau eraill. Rydym

yn cynghori mai'r ymgeisydd sy'n gyfrifol am sicrhau'r holl drwyddedau/caniatadau eraill sy'n berthnasol i'w ddatblygiad, yn ogystal â chaniatâd cynllunio. Gweler ein gwefan am ragor o fanylion. Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am yr uchod, cysylltwch â ni rhag blaen.

**Dŵr Cymru:**

**Cafwyd ymateb ar 02/05/2023:**

Rydym yn cyfeirio at eich ymgynghoriad cynllunio mewn perthynas â'r safle uchod, a gallwn ddarparu'r sylwadau a ganlyn am y datblygiad arfaethedig.

DIOGELU ASEDAU

Mae prif bibell dosbarthu dŵr yn croesi safle'r datblygiad arfaethedig, a'i lleoliad bras wedi'i ddangos ar y cynllun a atodwyd. Mae pwerau statudol gan Dŵr Cymru Welsh Water fel Ymgymerydd Statudol i gael mynediad at ein cyfarpar ar unrhyw adeg. Amgaeaf ein Hamodau ar gyfer Datblygu ger Prif Bibell(au) Dŵr. Mae'n bosibl y bydd modd dargyfeirio'r brif bibell ddŵr hon o dan Adran 185 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991, gan ailgodi'r gost am hynny ar y datblygwr. Rhaid i'r datblygwr ymgynghori â Dŵr Cymru Welsh Water cyn cychwyn unrhyw ddatblygu ar y safle.

CARTHFFOSIAETH

Mae'n ymddangos nad oes bwriad yn y cais i gysylltu â'r garthffos gyhoeddus, felly nid oes sylwadau pellach gan Dŵr Cymru Welsh Water. Fodd bynnag, os bydd amgylchiadau'n newid a bod y dewis o gysylltu â'r system garthffosiaeth gyhoeddus/gwaith trin carthion cyhoeddus yn cael ei ffafrio, rhaid ailymgynghori â ni ar y cais hwn. Mae ein hymateb wedi'i seilio ar y wybodaeth a ddarparwyd yn y cais. Os bydd y cynigion yn newid yn ystod y broses ymgeisio, rydym yn gofyn yn garedig i chi ailymgynghori â ni a chadwn yr hawl i gyflwyno sylwadau newydd.

**Uned Gwarchod y Cyhoedd:**

**Cafwyd ymateb ar 05/10/2023:**

Cyfeiriaf at y cais uchod ac rwyf yn gwneud y sylwadau a ganlyn:

Mae'r cais wedi cael ei ystyried a rhoddir ymateb gan gyfeirio at yr adroddiadau a gyflwynwyd fel a ganlyn:

- Asesiad Effaith Llwch gan SLR, Cyf: 416.13225.00001 Rhif Fersiwn: 2.0 Gorffennaf 2022
- Asesiad Sŵn gan SLR, Cyf: 403.13225.00002v1 Rhif Fersiwn: 2 Gorffennaf 2022
- Estyniad Arfaethedig i Chwarel Penygroes, Gwynedd.

Datganiad Amgylcheddol, Chwefror 2023 KEDD Cyf

Mae’r cais yn un am estyniad i’r Chwarel Tywod a Graean bresennol i’w benderfynu o dan Gais Cynllunio C13/0217/22/MW ar gyfer 7 mlynedd ychwanegol. Mae’r mannau ar gyfer y gwaith arfaethedig wedi’u dangos yn y cais fel cyfnodau 2, 3 a 4.

Mae’r cais yn un am gynnwys yr estyniad i’r man cyfnod 1. Nodir mai’r oriau gweithredu arferol yw 0800 awr i 1800 awr bob diwrnod rhwng dydd Llun a dydd Gwener a dim o gwbl at ddydd Sadwrn, dydd Sul na Gwyliau Banc. Rydym yn nodi ac yn cytuno ar yr oriau hyn sydd wedi’u nodi yn adroddiad y Datganiad Amgylcheddol, paragraff 3.2.1. Dylid trosi amod 12 yn C13/0217/22/MW sy’n ymwneud â’r oriau gweithio i’r cais hwn os caniateir y cais.

Mae’r cynlluniau yn cyfeirio at KD.PEN.D.012A ac mae KD.PEN.D.013A yn cyfeirio at fyndiau sgrinio 1-5 gan nodi eu huchder a’u lleoliad. Rydym yn cynghori y dylai uchder y byndiau gael ei bennu mewn amodau os caniateir y cais. Nodir bod Bwnd 1 yn fwnd ar gyfer gostegu sŵn a rhaid iddo fod yn 5m o uchder fel a nodwyd.

Ni ddylid ymgymryd ag unrhyw weithgareddau prosesu a ganiateir, fel prosesu a malu deunyddiau, ar y safle.

**Sŵn**

Mae effeithiau sŵn dichonol yn gysylltiedig â symud cerbydau a pheiriannau symudol/sefydlog y safle. Mae’r asesiad sŵn yn gwneud cyfrifiadau wrth dderbynyddion sensitif er mwyn disgrifio senario yr achos gwaethaf lle mae’r holl weithgareddau yn digwydd yr un pryd; ac mae’r rhain yn cael eu cymharu â therfynau sŵn a awgrymwyd yn y canllawiau perthnasol.

Codwyd pryderon gan y Gwasanaeth gyda’r ymgynghorydd sŵn cyn cael y cais mewn perthynas â’r monitro ar sŵn cefndir a gyflawnwyd yn ystod gwyliau’r Pasg. Fodd bynnag, mae’r adroddiad ar sŵn wedi darparu tystiolaeth o arolygon sŵn cefndir a gynhaliwyd yn 2014 a 2017. Mae’r canlyniadau o arolwg 2017 yn rhai cynrychiadol ac maent yn debyg i’r lefelau a fesurwyd yn 2022.

Mae nifer o unedau eiddo preswyl cyfagos sydd yn agos i safle’r cais, sydd mewn ardal o natur wledig yn bennaf.

Mae’r Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (Cymru) (MTAN) yn argymell bod clustogfa o 100 metr o leiaf ar gyfer cloddio tywod a graean rhwng rhannau o’r pwll sy’n cael eu gweithio (nid ffin safle’r cais) ac eiddo sensitif. Bydd yr estyniad i’r chwarel yn cydymffurfio â’r argymhelliad ar gyfer clustogfa. Mae rhwystr acwstig a bwnd eisoes wedi’u gosod ar y ffin dde-ddwyreiniol ar gyfer y chwarel

bresennol a rhaid iddynt aros yn eu lle os caniateir yr estyniad.

Mae’r adroddiad ar sŵn wedi darparu cyfrifiadau o’r lefelau sŵn a ragwelir o’r estyniad arfaethedig gan eu cymharu â’r canllawiau yn MTAN 1, sy’n datgan na chaiff y lefelau sŵn o weithrediadau arfaethedig y Chwarel fod yn fwy na 10dB(A) yn uwch na’r lefel sŵn cefndir. Rydym yn derbyn casgliad yr adroddiad ar sŵn a’r mesurau lliniaru arfaethedig sydd wedi’u disgrifio yn adran 4.2 yr adroddiad. Rydym yn cynghori y dylid cynnwys y mesurau lliniaru mewn amodau.

Ac eithrio drwy gytundeb ysgrifenedig ymlaen llaw â’r Awdurdod Cynllunio Mwynau, ni chaiff allyriadau sŵn o’r gweithrediadau a gyflawnir ar y safle (heblaw gweithrediadau dros dro fel tynnu pridd etc) fod yn fwy na’r lefelau sŵn canlynol mewn dB $LAeq,_{1\ awr}$ yn y lleoliadau monitro penodedig, wrth eu mesur ar uchder o 1.5 metr uwch y ddaear ac o dan amodau maes rhydd:

| Lleoliad monitro | Llun-Gwener 0800-1800 (ac eithrio gwyliau banc) | Gweithrediadau dros dro (dim mwy nag 8 wythnos y flwyddyn) | Unrhyw gyfnod arall |
|---|---|---|---|
| Pentyrch, LL54 6NS | 45 | 67 | 42 |
| Ffermdy Minffordd, LL54 6PE | 47 | 67 | 42 |
| Cae Efa Lwyd Fawr, LL54 6PB | 46 | 67 | 42 |
| Cae Efa Lwyd Fach, LL54 6PB | 51 | 67 | 42 |

Gweithgareddau Dros Dro

Lle mae gweithgareddau dros dro yn gallu dod â budd amgylcheddol tymor hwy, mabwysiadwyd terfyn o 67dB LAeq (dim mwy nag wyth wythnos y flwyddyn), ar sail y canllawiau yn MTAN 1. Rhaid gwneud cofnod ysgrifenedig o’r dyddiadau pan fydd y gweithgareddau hyn yn digwydd a rhaid trefnu i’r cofnod fod ar gael

i'r Awdurdod Cynllunio ar ei gais.

Sŵn o Weithrediadau/ Traffig Ffyrdd

Rhaid cadw cofnod ysgrifenedig yn swyddfa'r safle o'r holl symudiadau allan o'r safle gan gerbydau nwyddau trwm; rhaid i gofnodion o'r fath gynnwys manylion am bwysau'r cerbyd, ei rif cofrestru ac amser a dyddiad y symud a rhaid trefnu i'r cofnodion fod ar gael i'w harchwilio gan yr Awdurdod Cynllunio ar ei gais ar unrhyw adeg yn ystod yr oriau gweithio a ganiateir.

Dylid hefyd gyfyngu nifer y cerbydau drwy osod amod cynllunio. Dylid gosod amodau cynllunio mewn perthynas â mesurau i reoli'r defnydd o larymau 'sŵn gwyn' ar beiriannau symudol ar y safle sy'n bacio'n ôl.

Dylid storio'r holl lystyfiant, uwchbridd ac isbridd a dynnir ar gyfer pob cyfnod cloddio, ac mewn mannau sy'n cael eu heffeithio gan gloddio, ffyrdd mynediad dros dro a ffyrdd tynnu cerbydau, mewn bynciau sgrinio acwstig.

**Ansawdd Aer**

Rhwng Chwefror 2019 ac Ebrill 2020, defnyddiodd Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd offeryn monitro gronynnau OSIRIS (offeryn # TNO2558) yn Pentyrch, LL54 6NS. Mae'r tŷ hwn yn gyfagos i'r Chwarel ac roedd y cyfnod monitro yn cynnwys amseroedd cyn ac ar ôl gweithrediadau.

Mae'r offeryn hwn yn gyfarpar monitro parhaus ac fe'i defnyddiwyd i fesur gronynnau PM10, PM2.5 a PM1 ar fanylder o 0.1 µg/m3. Mae wedi'i ardystio gan Asiantaeth yr Amgylchedd o dan y cynllun MCERTS am gofnodi data $PM_{10}$ a $PM_{2.5}$ yn gywir ac yn ddibynadwy.

Casglwyd y data a gafwyd dros y cyfnod hwn a'u defnyddio i ganfod unrhyw fesuriadau a oedd yn uwch na'r terfynau yn y Safonau Ansawdd Aer isod:

**Rheoliadau Ansawdd Aer (Cymru) 2000, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Ansawdd Aer (Cymru) (Diwygio) 2002**

| **Llygrydd** | **Amcan Ansawdd Aer** | |
|---|---|---|
| | **Crynodiad** | **Mesurwyd fel** |

| | | |
|---|---|---|
| Gronynnau ($PM_{10}$) (grafimetrig) | Ni ddylid mynd y tu hwnt i 50 µg/m$^3$ fwy na 35 gwaith y flwyddyn | Cymedr 24 awr |
| | 40 µg/m$^3$ | Cymedr blynyddol |

**Safonau ansawdd aer eraill sy'n berthnasol i iechyd pobl**

| Llygrydd | Terfyn yr UE neu werth targed | |
|---|---|---|
| | **Crynodiad** | **Mesurwyd fel** |
| Gronynnau ($PM_{2.5}$) (grafimetrig) | 25 µg/m$^3$ | Cymedr blynyddol |

Nid oedd y data a gasglwyd dros y cyfnod hwn yn dangos unrhyw grynodiadau a oedd yn uwch na'r terfynau yn y safonau uchod.

Dylid cynnwys meini prawf Ansawdd Aer mewn perthynas ag iechyd y cyhoedd i gwrdd â'r amcanion ansawdd aer er mwyn sicrhau na fydd unrhyw lygryddion aer sy'n codi o'r gwaith yn cael effaith niweidiol ar iechyd y cyhoedd. Y maes a fyddai'n peri'r pryder mwyaf yw rhyddhau allyriadau sy'n ffoi i'r awyr yn ystod y cyfnodau gweithredol ac o ganlyniad i symudiadau traffig cerbydau nwyddau trwm.

Rydym wedi adolygu'r Asesiad Effaith Llwch gan SLR a gyflwynwyd Cyf: 416.13225.00001 Rhif fersiwn: 2.0 Gorffennaf 2022. Rydym yn cytuno ag Adran 6.2.1 o'r adroddiad nad oes nemor ddim posibilrwydd i weithrediadau'r Safle arwain at dorri'r amcanion uchod.

Bydd yn ofynnol cael Cynllun Monitro a Rheoli Llwch wedi'i ddiweddaru fel y nodwyd yn Adran 6.1.1 o'r adroddiad. Rhaid i'r cynllun fod ar waith a rhaid cynnwys y materion canlynol mewn amodau (gweler Tabl 1 a Thabl 2 isod):

Rhaid i'r lefelau PM10 beidio â bod yn uwch na'r cymedr dyddiol o 50µg/m$^3$ gyda dim mwy na 35 o fesuriadau yn uwch na hynny yn ystod y flwyddyn, a dim uwch na 40µg/m$^3$ wedi'u mesur fel cymedr blynyddol, wrth eu mesur yn y derbynnydd iechyd pobl sensitif agosaf.

Rhaid i'r lefelau PM2.5 beidio â bod yn uwch na'r cymedr blynyddol o 25µg/m3, wrth eu mesur yn y derbynnydd iechyd pobl sensitif agosaf.

Rhaid i'r lefelau Nitrogen Deuocsid ($NO_2$) beidio â bod yn uwch na chymedr yr awr o 200µg/$m^3$ fwy na 18 gwaith y flwyddyn a dim uwch na 40µg/$m^3$ wedi'u mesur fel cymedr blynyddol a rhaid eu mesur yn y derbynnydd iechyd pobl sensitif agosaf.

<u>Tabl 1</u>

| **Awdurdod** | **Llygrydd** | **Amcan** | **Mesurwyd fel:** | **Perthnasedd** |
|---|---|---|---|---|
| Safon Ansawdd Aer y CE/DU | $PM_{10}$ | Ni ddylid mynd y tu hwnt i 50µg/$m^{-3}$ fwy na 35 gwaith y flwyddyn | Cymedr 24 awr | Ansawdd Aer mewn perthynas ag iechyd pobl |
| Safon Ansawdd Aer y CE/DU | $PM_{10}$ | 40µg/$m^{-3}$ | Cymedr blynyddol | Ansawdd Aer mewn perthynas ag iechyd pobl |
| Safon Ansawdd Aer y CE/DU | $NO_2$ | 200µg/$m^{-3}$ | Cymedr yr awr | Ansawdd Aer mewn perthynas ag iechyd pobl |
| Safon Ansawdd Aer y CE/DU | $NO_2$ | 40µg/$m^{-3}$ | Cymedr blynyddol | Ansawdd Aer mewn perthynas ag iechyd pobl |
| Safon Ansawdd Aer y DU - targed | $PM_{2.5}$ | Gwerth targed 25µg/$m^{-3}$ | Cymedr blynyddol | Ansawdd Aer mewn perthynas ag iechyd pobl |

**Mesuryddion Niwsans a Dyddodion Llwch Statudol**

Ni osodwyd terfynau statudol ar gyfer lefelau derbyniol o niwsans llwch, ond mae canllawiau'r DU yn awgrymu bod gwerth canllaw o 200 mg/m2 y diwrnod yn dangos bod niwsans yn debygol o godi. Felly rydym yn cynghori y dylid gosod amod a fydd yn adlewyrchu Tabl 2 isod.

Tabl 2

| **Awdurdod** | **Llygrydd** | **Amcan** | **Mesurwyd fel:** | **Perthnasedd** |
|---|---|---|---|---|
| Cyfradd Dyddodi Llwch sy'n Achosi Niwsans | Gronynnau | 200 $mgm^{-3}$ y diwrnod | Cyfartaledd 1 mis - Cymedr blynyddol | Dyddodi Llwch sy'n Achosi Niwsans |

Pan geir cwyn neu ar gais tîm Monitro Ansawdd Aer yr Adran Gynllunio, rhaid cynnal arolwg llwch am o leiaf 3 mis mewn lleoliad(au) a gytunir â'r awdurdod cynllunio. Gellir cynnwys hyn mewn amod a'i eirio fel y mae yn amod 14 o ganiatâd cynllunio C13/0217/22/MW.

Llwch o Gerbydau Nwyddau Trwm a Malurion Ffyrdd

Dylid lleoli cyfleuster golchi olwynion o flaen y bont bwyso ac wrth yr allanfa i'r briffordd gyhoeddus. Rhaid cyflwyno manylion y cyfleusterau golchi cerbydau sydd i'w gosod, yn cynnwys eu lleoliad, dyluniad, manyleb a rheolaethau sydd i'w defnyddio i sicrhau defnydd cywir, i'w cymeradwyo mewn ysgrifen. Ar ôl hynny, rhaid cynnal y cyfleusterau a gymeradwywyd mewn cyflwr gweithredol a rhaid iddynt gael eu defnyddio gan yr holl gerbydau nwyddau trwm sy'n gadael y safle er mwyn sicrhau na fydd dim mwd, llwch na deunydd niweidiol arall yn cael ei drosglwyddo i'r briffordd gyhoeddus wrth adael y safle.

Rhaid gosod llenni yn sownd am yr holl gerbydau sy'n cludo mwynau o'r safle sydd o unrhyw faint sy'n llai na 100mm ar unrhyw ddimensiwn.

**Uned Gynllunio Polisi Pridd a Defnydd Tir Amaethyddol:**

**Cafwyd ail ymateb ar 22/11/2023:**

Cyfeiriaf at eich e-bost ar 31 Hydref 2023 yn ymgynghori â'r Adran ar y cais cynllunio diwygiedig uchod. Gwneir yr ymateb hwn yn unol ag:

• Atodlen 51 i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i

diwygiwyd); a

• Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (MTAN) 1, Pennod D2

• Atodiad B i Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 6 – 2010. 3

• Polisi Cynllunio Cymru (PPW), Argraffiad 11 – 2021. 4 Nid yw'r Adran Newid Hinsawdd yn dymuno gwneud sylwadau am egwyddor y datblygiad a bydd yn gwneud sylwadau dim ond am yr ôl-ddefnydd amaethyddol a gynigir ar gyfer rhan o'r safle.

Dosbarthiad Tir Amaethyddol:

Comisiynwyd arolwg manwl o Ddosbarthiadau Tir Amaethyddol gan yr Ymgeisydd gan ddefnyddio LRA (Ionawr 2022). Yn yr arolwg, mapiwyd dau floc ar wahân o is-raddau Dosbarthiad Tir Amaethyddol 3a a 3b.

Ôl-ddefnydd Amaethyddol:

Yn y cynllun a gyflwynwyd ar gyfer gweithio ac adfer y chwarel, nodwyd arwynebedd o tua 0.81ha (a elwir yn Gae A) y bwriedir ei adfer i fod yn dir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (Is-radd 3a) ac i ôl-ddefnydd amaethyddol ar ôl rhoi'r gorau i gloddio. Mae Cynllun 2 yn yr adroddiad Eglurhad o Adnoddau Pridd ac Ansawdd Amaethyddol y Tir yn cyfeirio'n benodol at Laswelltir Cyfoethog ei Rywogaethau a reolir drwy bori. Rhaid i'r holl briddoedd a geir yn ardal yr estyniad gael eu casglu, eu storio a'u defnyddio yn y gwaith adfer amaethyddol a mwynderau, yn y ffyrdd sydd wedi'u hamlinellu yn Atodiad Technegol H.

Atodlen 5, Rhan 1(1):

Yn ddarostyngedig i'r amod isod, cadarnheir bod amaethyddiaeth yn ôl-ddefnydd priodol ar gyfer Ardal A ac y gall eich Awdurdod bennu hynny yn unol ag Atodlen 5, Rhan 1(1) o Ddeddf 1990. Amod 1: Mae'r ymgeisydd wedi darparu gwybodaeth ychwanegol am y lefel trwythiad a rheoli draenio ar gyfer Cae A. Ni all yr Adran wneud sylw am ddilysrwydd y wybodaeth hon. Bydd angen i'ch Awdurdod gael ei fodloni bod y cynigion ar gyfer draenio yn ddigonol. Byddai unrhyw broblemau draenio sy'n achosi lefel trwythiad uchel neu byllau dŵr wyneb, boed yn dymhorol neu'n barhaol, yn atal ôl-ddefnydd amaethyddol llesiannol ac felly yn peri bod y paragraff uchod yn ddi-rym, h.y., nid yn unol ag Atodlen 5, Rhan 1(1) o Ddeddf 1990.

Atodlen 5, Paragraff 3(2):

Nid yw'r cynllun yn rhoi lle i gredu ei bod yn ymarferol adfer Ardal A i fod yn Dir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (BMV). Felly dylai safon yr ôl-ddefnydd amaethyddol fod yn un sy'n creu adnodd

amaethyddol sydd o fudd economaidd hirdymor, parhaus i'r gymuned amaethyddol leol. Credir mai glaswelltir cynhyrchiol Gradd 3b (ALC) yw'r safon briodol yn yr achos hwn, i adlewyrchu ansawdd y tir a gymerwyd yn ardal yr estyniad, yr adnodd pridd sydd ar gael, diffyg adroddiad ar nodweddion ffisegol y pridd a mesurau BMV penodol, ac i gwrdd â'r gofyniad ym mharagraff 3(2) o Atodlen 5 i Ddeddf 1990. Polisi BMV: mae 0.81ha o dir amaethyddol BMV yn debygol o gael ei golli o ganlyniad i'r datblygiad hwn (Cynllun 1 yn yr adroddiad Eglurhad o Adnoddau Pridd ac Ansawdd Amaethyddol y Tir). Mae TAN6 Atodiad B6 yn disgwyl "y dylai'r awdurdodau cynllunio allu penderfynu ar geisiadau i ddatblygu ar dir amaethyddol yng ngoleuni'r dystiolaeth sydd ger eu bron... Dylid cyfyngu ymgynghori [anstatudol] o'r fath [gyda'r Adran] i faterion technegol gan beidio â chyfeirio at deilyngdod y cais neu ddiffyg teilyngdod o'r fath, gan mai mater i'r awdurdod cynllunio farnu yn ei gylch yw hynny."

<u>Amodau Adfer ac Ôl-ofal Amaethyddol</u>
Bydd angen gosod amodau priodol i reoleiddio'r gweithrediadau angenrheidiol yn ystod oes y chwarel er mwyn sicrhau'r safon ofynnol o ôl-ddefnydd amaethyddol. Dylai'r amodau hyn ei gwneud yn ofynnol i weithredwr y chwarel ddilyn y gyfres o weithrediadau a amlinellwyd yn y cynllun gwaith a gyflwynwyd, fel uchod, neu os bydd newid yn y dull o weithio a/neu'r strategaeth adfer, i'w gwneud yn ofynnol iddynt gyflwyno cynigion diwygiedig i'w cymeradwyo ymlaen llaw. Rwyf yn atodi rhestr o amodau sy'n dangos gweithrediadau adfer ac ôl-ofal y mae angen eu rheoleiddio drwy osod amodau (gweler Atodiad 1 ac Atodiad 2). Gofynnir i chi drafod os yw'ch Awdurdod yn gweld unrhyw anhawster mewn cynnwys materion o'r fath yn y caniatâd. Nid yw'r cyngor a fynegwyd yn rhwymo unrhyw ran arall o Lywodraeth Cymru sy'n gwneud sylwadau am y cais. Hyderaf fod y farn a fynegwyd uchod a'r sylwadau cysylltiedig yn rhai clir a diamwys. Cysyllter â ni rhag blaen os bydd angen.

**<u>Cafwyd yr ymateb cyntaf ar 15/05/2023:</u>**

Cyfeiriaf at eich e-bost ar 24 Ebrill 2023 yn ymgynghori â'r Adran ar y cais cynllunio uchod. Gwneir yr ymateb hwn yn unol ag:

• Atodlen 51 i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd); a

• Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (MTAN) 1, Pennod D2

• Atodiad B i Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 6 – 2010. 3

• Polisi Cynllunio Cymru (PPW), Argraffiad 11 – 2021. 4

Bydd yr ymateb hwn yn ymdrin yn gyntaf â'n hystyriaeth i'r arolwg Dosbarthiadau Defnydd Tir a gyflawnwyd ar gyfer y safle, ac wedyn

ein hymateb ar y cais arfaethedig a’r ardal ehangach ar gyfer gweithio o fewn y ffin bresennol ar gyfer datblygu a ganiateir.

1. Dosbarthiad Tir Amaethyddol (ALC) - Cyngor:

Mae adroddiad ALC wedi’i baratoi gan Land Research Associates (LRA) (Cyf: 1921/1 – Adnoddau Pridd ac Ansawdd Amaethyddol Tir yn Chwarel Penygroes, dyddiedig 10 Ionawr 2022) – atodwyd copi er gwybodaeth. Roedd yr adroddiad wedi cael bod ardal yr arolwg yn cynnwys 5.6ha o dir amaethyddol Is-radd 3a, 4.2ha o dir amaethyddol 3b a 3.7ha o ‘dir arall’– archwiliwyd cyfanswm o 13.5ha. Mae’r Adran wedi cynnal dilysiad o’r adroddiad ar arolwg LRA a gall gadarnhau ei fod wedi’i gynnal yn unol â’r gofynion yn ‘Revised Guidelines and Criteria for Grading the Quality of Agricultural Land’ (MAFF 1988)5. Gellir derbyn yr adroddiad fel disgrifiad cywir o ansawdd y tir amaethyddol ar y safle. Mae hyn yn cadarnhau bod yr ardal a archwiliwyd yn cynnwys 5.60ha o’r tir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (BMV) fel y mae wedi’i ddiffinio yn Polisi Cynllunio Cymru (PPW) 11, paragraff 3.58. Mae’r Adran yn dymuno nodi bod cyfeiriadau at ‘MAFF Good Practice Guide for Handling Soils’ (Adran 5.0 o’r adroddiad) wedi’u disodli bellach gan ddogfen y Sefydliad Chwarela ‘Good Practice Guide for Handling Soils in Mineral Workings’ 6 (2021). Mae Dalennau 1, 2, 3, 4 a 14 wedi’u disodli bellach gan Ddalennau A, B, C, D a G yn yr un drefn yng nghanllawiau’r Sefydliad Chwarela.

2. Y tir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (BMV).

Mae’r cais yn cynnwys tir amaethyddol BMV ac felly bydd Polisi Cynllunio Cymru (PPW) paragraffau 3.58 a 3.59 yn gymwys. Nid yw’r adran o’r farn bod y polisi wedi cael sylw yn y cais, drwy ddangos: - i. sut y mae ‘cryn bwys’ yn cael ei roi ar ddiogelu tir BMV rhag datblygu; ii. dangos bod ‘angen sy’n drech na dim arall’ os oes angen datblygu tir BMV, iii. ei bod yn glir bod y prawf cymalog wedi’i ddefnyddio. Nid yw’n glir yn y cais faint o dir BMV fydd yn cael ei weithio / aflonyddu a faint fydd yn cael ei golli neu sydd i gael ei adfer ac a fydd yn cael ei adfer i’w gyflwr cyn cloddio neu ar gyfer ôl-ddefnydd arall. Mae tir amaethyddol BMV yn adnodd y mae terfyn iddo. Mae’r adran yn anghytuno â’r datganiadau ym mharagraff 5.3.45 a 5.3.47 yn y datganiad cynllunio. Yn TAN 6, paragraff 6.2.2 nodir ‘…unwaith y datblygir tir amaethyddol, hyd yn oed ar gyfer defnyddiau ‘meddal’ fel cyrsiau golff, anaml y mae’n ymarferol ei ddefnyddio eto at ddibenion ffermio fel tir amaethyddol o’r ansawdd gorau a mwyaf defnyddiol’.

3. Adfer ac ôl-ddefnydd:

Darparwyd cynllun cysyniad adfer ar gyfer y safle cyfan (lluniad: KD.PEN.D.006A Concept Restoration - FINAL) sy’n nodi y bydd y chwarel yn cael ei hadfer yn raddol at ôl-ddefnydd ‘…amaethyddol

a/neu yn gynefinoedd bywyd gwyllt …' (gweler paragraff 1.1.5 yn y datganiad cynllunio). Nid yw'n glir a yw ôl-ddefnydd arfaethedig y safle yn un ar gyfer amwynder (Atodlen 5, 3 (4) i Ddeddf 1990) neu amaethyddiaeth (Atodlen 5, 3 (2) i Ddeddf 1990). Mae'n ymddangos ei fod ar gyfer ôl-ddefnydd amwynder a gaiff ei reoli drwy bori (paragraff 1.1.6). Fodd bynnag, mae hyn yn fater i'w ddatgan yn glir gan yr Ymgeisydd ac nid yn un i'w ragdybio gan yr Adran. Mae'n hollbwysig bod yr ôl-ddefnydd arfaethedig yn cael ei egluro er mwyn sicrhau bod y cynigion ar gyfer adfer ac ôl-ofal yn rhai ymarferol a bod modd eu cynnwys mewn amodau. Os mai amaethyddiaeth yw'r ôl-ddefnydd arfaethedig ar gyfer llawr y chwarel, nid yw'n glir sut byddai'r lefel trwythiad a'r draenio yn cael eu rheoli. Mae'r Adran yn pryderu y byddai'r nodwedd basn yn gallu arwain at broblemau draenio a chreu pyllau o ddŵr wyneb, boed yn dymhorol neu'n barhaol (MTAN1 paragraff 99). Mae'r cynllun cysyniad adfer (Cyf: KD.PEN.D.006A) yn nodi mai graddiant llethrau'r chwarel fyddai 1:2 neu 1:3: byddai hyn yn cyfyngu ansawdd y mannau hyn i safon ALC Gradd 5 (tir amaethyddol o ansawdd gwael iawn) ar y gorau oherwydd y perygl o erydu pridd a'r terfynau ar y gallu i ddefnyddio peiriannau amaethyddol yn ddiogel (Tabl 1 yn y Canllawiau a Meini Prawf ALC7). Cadarnhawyd bod rhywfaint o'r arwynebedd hwn o ansawdd ALC Is-radd 3a (BMV) ar hyn o bryd. Ar sail y ffigurau a ddarparwyd yn yr adroddiad ar adnoddau pridd (Atodiad Technegol H) mae'n ymddangos bod digon o uwchbridd (29,400m³) ac isbridd (11,800m³ a 23,500m³) ar gael i adfer y man gweithio o 7.73ha (gan gymryd bod 300mm o uwchbridd a 400mm o isbridd). Nid oes manylion yn y cais am y deunydd sylfaen disgwyliedig, am ripio'r sylfaen nac am gynllun ôl-ofal arfaethedig. Cyfrifoldeb y gweithredwr mwynau yw dylunio a chyflawni'r cynllun adfer ac ôl-ofal o ansawdd da y mae'n ofynnol ei gynnwys ym mhob cais am gloddio mwynau (MTAN1 paragraff 97 a PPW 5.14.50). Ar hyn o bryd, nid yw'n glir a yw amaethyddiaeth yn ôl-ddefnydd priodol ar gyfer llawr y chwarel, oherwydd yr ansicrwydd ynghylch draenio ac ymarferoldeb.

<u>4. Datganiad Barn:</u>

Mae'r Adran yn cynnig Gwrthwynebiad Amodol i'r cais ar y sail bod bwriad y cais yn anghyson â PPW, MTAN1 a TAN6. Rhesymau:
• Nad yw polisi ar dir amaethyddol BMV (PPW 3.58 a 3.59) wedi cael ei drafod.
• Nad yw ôl-ddefnydd arfaethedig y safle (yn ôl y diffiniad yn Atodlen 5, 3 i Ddeddf 1990) yn glir.
• Nad oes manylion yn y cais am gynllun adfer ac ôl-ofal priodol. Cyfrifoldeb y gweithredwr mwynau yw dylunio a chyflawni'r cynllun adfer ac ôl-ofal o ansawdd da y mae'n ofynnol ei gynnwys ym mhob cais am gloddio mwynau (MTAN 97 a PPW 5.14.50).

Ystyriaeth Ychwanegol: Byddai'r Adran yn falch o ailystyried ei

safbwynt os darperir rhagor o wybodaeth sy'n rhoi sylw i'r diffygion a nodwyd.

**Uned Bioamrywiaeth:**

**<u>Ymateb a gafwyd ar 30.01.2024:</u>**

Mae'r cais yn annhebygol o gael effaith arwyddocaol ar y ACA ac felly nid yw'n ofynnol cael asesiad priodol.

**<u>Ymateb a gafwyd ar 20/06/2023:</u>**

Bydd yr estyniad oddi mewn i gaeau amaethyddol tua'r gogledd i'r Chwarel Penygroes bresennol sydd â chaniatâd. Mae tua 298,000 o dunelli o fwynau sydd â chaniatâd yn weddill ar y safle. Mae hyn yn golygu bod tua 3 blynedd o oes y chwarel yn weddill gan gymryd bod 125,000 o dunelli yn cael eu cloddio bob blwyddyn. Ar sail ymchwiliadau daearegol, amcangyfrifwyd y bydd yr estyniad arfaethedig yn rhyddhau tua 792,803 o dunelli o dywod a graean ychwanegol.

<u>Moch Daear</u>

Mae moch daear yn cael eu gwarchod yn y DU o dan Ddeddf Gwarchod Moch Daear 1992 a Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd). Ymwelais â'r chwarel yn Chwefror 2023. Cefais fod brochfa moch daear weithredol o fewn y chwarel a rhagor o arwyddion o bresenoldeb moch daear o gwmpas y chwarel. Yn ystod fy ymweliad, cefais fy siomi o weld bod brochfa moch daear y mesur lliniaru mewn cyflwr tebyg a gwaeth nag yr oedd yn 2019. Mae'r amod ar warchod moch daear ar gyfer caniatâd mwynau C13/0217/22/MW mewn llythyr ar gyflawni'r amodau ar gyfer chwarela o dan C19/0852/22/AC yn datgan bod angen cymryd camau i wella ac atgyweirio'r frochfa o dan y mesur lliniaru ar gyfer moch daear (amod 37). Nid yw'r camau hyn wedi'u cwblhau. Hoffwn weld bod y ffens o amgylch brochfa'r mesur lliniaru yn cael ei hatgyweirio, a bod y gât yn cael ei chadw ar gau dan glo a bod coed yn cael eu plannu ar hyd y ffens gan gynnwys coed ysgaw, coed cyll, coed eirin hirion, drain gwynion a mieri. Byddwn yn ddiolchgar am gwblhau'r gwaith hwn mor fuan â phosibl. Mae'r ymgeisydd wedi darparu Adroddiad Moch Daear gan Kedd Cyf dyddiedig Chwefror 2023. Roedd yr arolwg wedi cael bod dwy frochfa allanol mewn lleoliadau nad oes eu hangen ar hyn o bryd ar gyfer gwaith cloddio, ac mae'n argymell bod clustogfa o 30m yn cael ei chadw er mwyn gwarchod y brochfeydd hyn. Bydd yn ofynnol cael trwydded gan Cyfoeth Naturiol Cymru i ymgymryd â gwaith a fydd yn dinistrio brochfa moch daear. Mae'r frochfa moch daear artiffisial i gael ei chadw tra bydd y gwaith yn para. Yn ogystal â hyn, bydd

clustogfa o 30m o gwmpas y frochfa hon wrth gloddio yn y chwarel ac mae argymhelliad i blannu gwrych o amgylch y ffens sy'n diogelu'r frochfa. Rwyf yn siomedig o hyd nad yw brochfa'r mesur lliniaru wedi cael ei gwella. Hoffwn gael adroddiad cyn gynted â phosibl yn disgrifio gwelliannau a wnaed i'r frochfa gyfnewid artiffisial. Rwyf yn argymell bod hyn yn cael ei gwblhau cyn penderfynu'r cais cynllunio hwn.

Ymlusgiaid

Mae'r ymgeisydd wedi darparu Adroddiad Ymlusgiaid dyddiedig Gorffennaf 2022 gan Kedd Cyf. Ni chofnodwyd unrhyw ymlusgiaid. Er hynny, rwyf o'r farn ei bod yn debygol bod ymlusgiaid yn bresennol ac o gwmpas Mawrth 2022 gwelwyd Madfall ar ben camfa mewn man a oedd yn 58 metr oddi wrth fynedfa'r chwarel ar ochr gyferbyn y ffordd. Mae'r llwybr beiciau 270 metr i'r dwyrain o'r chwarel ac mae'n debygol bod ymlusgiaid yn bresennol ar y llwybr beiciau yn ogystal â'r gwlyptir sydd 240 metr i'r gorllewin. Felly rwyf yn argymell cymryd bod ymlusgiaid yn bresennol ac mae'r adroddiad ymlusgiaid hefyd yn argymell "Er na chofnodwyd unrhyw ymlusgiaid yn ystod yr arolygon, mae'n bosibl bod rhywogaethau penodol o ymlusgiaid yn symud drwy'r safle wrth gymudo o gynefinoedd cyfagos. Argymhellir felly fod yr holl waith tynnu pridd ar gyfer y cynigion yn cael ei gyflawni o dan oruchwyliaeth Clerc Gwaith Ecolegol. Bydd yr oruchwyliaeth gan Glerc Gwaith Ecolegol yn golygu bod ecolegydd â chymhwyster addas yn cynnal chwiliad manwl iawn cyn cychwyn y gwaith tynnu pridd ar y safle. Yn ogystal â hyn, dylai'r ecolegydd arsylwi wedyn ar y gwaith tynnu pridd o bellter diogel ac, os yw'n digwydd bod ymlusgiaid yn cael eu gweld, yna gellir symud yr ymlusgiaid hyn yn ddiogel wedyn i'r tu allan i ffin y safle." Rwyf yn cytuno â hyn.

Adar Nythu – Gwenoliaid y Glennydd

Ceir nythfeydd gwenoliaid y glennydd ar glogwyni meddal y chwarel ac mae'r Adroddiad ar yr Arolwg o Adar Nythu dyddiedig Gorffennaf 2022 a luniwyd gan Kedd Cyf yn cadarnhau bod 29 o wenoliaid y glennydd wedi eu cyfrif. Mae'n bosibl bod nifer o rywogaethau adar eraill yn nythu ar y safle, yn cynnwys corhedydd y coed a'r gog. Cofnodwyd cyfanswm o 25 o rywogaethau o fewn y safle yn ystod yr arolygon o adar nythu. Mae'r datblygiad arfaethedig yn creu effaith ddichonol ar bedair o rywogaethau'r Rhestr Goch (y gog, gwylan y penwaig, y troellwr bach a chorhedydd y coed) a saith o rywogaethau'r Rhestr Oren (llwyd y gwrych, y fronfraith, yr ydfran, y dryw, y llwydfron, yr ysguthan a'r telor helyg). Mae'r Adroddiad Adar yn argymell bod unrhyw waith i dynnu llystyfiant yn digwydd y tu allan i'r tymor nythu sydd fel arfer yn para rhwng diwedd Chwefror a diwedd Awst. Os na fydd hyn yn bosibl, yna

dylid cynnal arolwg gan ecolegydd â chymhwyster addas cyn pob gwaith i dynnu llystyfiant, er mwyn canfod unrhyw adar nythu sy'n bresennol a chynghori ar sail hynny ar y camau mwyaf priodol i'w cymryd. Yn rhan o'r mesurau lliniaru, dylid plannu prysgwydd fel mieri, drain gwynion, drain duon, coed ysgaw a chyll, yn glystyrau ac fel gwrychoedd. Mae'r Adroddiad Adar yn argymell gosod mur gwenoliaid y glennydd.

Cloddiau a gwrychoedd

Mae ardal yr estyniad arfaethedig yn gaeau amaethyddol gyda gwrychoedd dirywiedig (eithin yn bennaf) a chloddiau. Mae'r ymgeisydd wedi darparu adroddiad Arfarniad Ecolegol Rhagarweiniol a luniwyd gan Kedd Cyf. Bydd y gwrychoedd a'r cloddiau ar y safle yn cael eu dinistrio gan yr estyniad i'r chwarel. Er mwyn lliniaru'r effaith hon, mae'n bwysig y bydd gwrychoedd a phrysgwydd yn cael eu plannu unwaith y bydd y chwarela wedi'i gwblhau.

Glaswelltiroedd

Er bod mwyafrif y glaswelltiroedd wedi'u gwella'n amaethyddol, mewn un man maent wedi'u lled-wella ac maent yn cynnal nifer o rywogaethau o flodau gwyllt. Collir y cynefin hwn.

Safle Bywyd Gwyllt

Mae safle bywyd gwyllt Minffordd De 596 yn wlyptir i'r gorllewin o'r chwarel yn union gyfagos i'r estyniad arfaethedig. Ni fydd y chwarel oddi mewn i'r Safle Bywyd Gwyllt ond fe allai newid llif y dŵr daear: byddai hyn yn gallu effeithio ar y Safle Bywyd Gwyllt drwy leihau'r dŵr sy'n dod iddo. Er mwyn sicrhau bod y Safle Bywyd Gwyllt hwn yn cael ei warchod, rwyf yn argymell monitro hydrolegol ar ei gyfer.

Hydroleg

Lluniwyd Asesiad Effaith Hydroddaearegol gan Hafrenwater, dyddiedig Tachwedd 2022. Bydd tywod a graean yn cael eu cloddio tua 1 metr uwchlaw'r lefel trwythiad. Mae cwrs dŵr bach a ffynnon yn agos i ffin orllewinol y safle. Nid oes unrhyw nodweddion dŵr neu fannau codi dŵr sensitif eraill sydd o fewn 500 metr iddo. Mae gwaith monitro dŵr daear wedi dangos bod nodweddion dŵr sydd yn union i'r gorllewin o'r safle yn rhai sy'n cael eu cynnal yn rhannol gan ddŵr daear. Ceir gwlyptir i'r gorllewin o'r estyniad arfaethedig i'r chwarel. Ni ddylid cloddio'n ddyfnach na'r gwlyptir sydd i'r gorllewin o'r safle.

Ystlumod

Mae'r ymgeisydd wedi darparu Adroddiad Gweithgarwch Ystlumod dyddiedig Chwefror 2023 a luniwyd gan Kedd Cyf. Cynhaliwyd arolygon ar 11 dyddiad yn 2020 a 2022. Roedd yr Arolygon Gweithgarwch Ystlumod wedi cofnodi'r Ystlum Lleiaf, yr Ystlum Lleiaf Meinllais, yr Ystlum Mawr, Ystlumod Clustlydan (Ystlum Natterer ac Ystlum y Dŵr), yr Ystlum Hirglust. Gwelwyd ystlumod yn chwilota am fwyd ar borfa o fewn y safle a hefyd ar hyd terfyn y chwarel ac mewn rhesi o brysgwydd ar y safle. Fodd bynnag, gwelwyd y coridorau gorau ar gyfer chwilota ar hyd y glaswelltir corsiog i'r gorllewin o'r safle a hefyd ar hyd y coetir i'r gogledd o ffin y safle. Ni fydd yr estyniad i'r chwarel yn arwain at golli clwydfannau ystlumod. Bydd yr estyniad i'r chwarel yn arwain at golli coridorau bywyd gwyllt a chynefinoedd chwilota ar gyfer ystlumod. Rhaid lliniaru'r effaith hon drwy blannu prysgwydd a gwrychoedd wrth adfer y chwarel.

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Fel yr awdurdod cymwys o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd), rhaid i Gyngor Gwynedd gynnal asesiad cyn penderfynu rhoi caniatâd ar gyfer prosiect sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar ACA. Mae'r ymgeisydd wedi darparu gwybodaeth a gynhyrchwyd gan Kedd Cyf dyddiedig Chwefror 2023 ar gyfer Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn yn asesu gwybodaeth am unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol ar Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Corsydd Eifionydd / Eifionydd Fens, SoDdGA Glynllifon a SoDdGA Cors Llanllyfni. Mae SoDdGA Cors Llanllyfni yn rhan o ACA Corsydd Eifionydd sydd tua 1.2km i'r de o'r chwarel. Rhostir gwlyb a geir ar y safle hwn yn bennaf lle cafwyd bod rhywogaethau mwsogl o bwys rhyngwladol, yn cynnwys mwsogl *Haematocaulis vernicosus*. Yn yr asesiad hydrolegol a gynhaliwyd yn Chwefror 2022 gan Hafrenwater (Cyfeirnod Adroddiad: 3013/HIA), cafwyd y casgliad canlynol: 'gan y bydd yr holl waith cloddio mwynau yn cael ei gyflawni uwchlaw'r lefel trwythiad, ni fydd newid yn lefel y dŵr daear o ganlyniad i gloddio mwynau'. Mae'r adroddiad hwn yn nodi ymhellach 'Gan nad oes datblygu o dan y lefel trwythiad, rhagwelir na fydd newid yn llwybrau llifo nac uchder y dŵr daear yn dilyn y gwaith adfer'. Ar ddiwedd yr adroddiad hwn, nodwyd 'Am mai'r farn yw na fydd perygl i'r amgylchedd dŵr o'r safle ar ôl ei adfer, credir nad oes angen cymryd mesurau lliniaru'. Casgliad yr asesiad felly oedd na fydd problemau hydrolegol ar unrhyw un o'r safleoedd dynodedig sydd o fewn 2km i ffin y cais. Mae SoDdGA ac ACA Glynllifon tua 1.1km i'r gogledd o ffin y safle. Mae safle Glynllifon wedi'i ddynodi ar sail ei boblogaeth o Ystlumod Pedol Lleiaf. Ni chofnodwyd unrhyw ystlumod pedol

lleiaf yn chwilota o fewn y safle yn ystod yr arolygon o weithgarwch yn 2020 nac yn yr arolygon gan synwyryddion sefydlog awtomatig. Yn ogystal â hyn, ni chofnodwyd unrhyw ystlumod pedol lleiaf yn ystod yr arolygon ym Mai a Mehefin 2022 nac ychwaith yn ystod yr arolwg gan synwyryddion sefydlog awtomatig yn ystod Mai/Mehefin 2022. Mae adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a luniwyd gan Kedd yn dod i'r casgliad na fydd yr estyniad arfaethedig i'r chwarel yn cael unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol ar Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Corsydd Eifionydd / Eifionydd Fens, SoDdGA Glynllifon na SoDdGA Cors Llanllyfni, ac rwyf yn cytuno â'r casgliad hwn.

<u>Adfer a Gwella Bioamrywiaeth</u>

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod dyletswydd ar bob corff cyhoeddus i wella bioamrywiaeth a chadernid ecolegol. Mae'r cynllun adfer yn dangos y bydd un cae yn laswelltir cyfoethog ei rywogaethau. Bydd yn ofynnol cael manylion am y ffordd y bydd hyn yn cael ei greu a'i reoli. Rwyf yn argymell gosod amod sy'n datgan bod rhaid darparu cynllun rheoli bioamrywiaeth o fewn 2 flynedd ar ôl rhoi caniatâd a fydd yn amlinellu'r dull rheoli ar gyfer 25 mlynedd a bod rhaid i hynny gynnwys dull o reoli gweirglodd draddodiadol lle cedwir da byw allan rhwng Ebrill a Medi i ganiatáu i flodau hadu a bod yn ffynhonnell neithdar i bryfed peillio, a bod y glaswellt yn cael ei dorri a'i fwndelu. Rhaid i'r lefelau pori gan dda byw fod yn addas ar gyfer gwella bioamrywiaeth. Mae'r cynllun adfer yn cynnwys dau bwll dŵr dros dro, plannu gwrychoedd ac adfer cloddiau. Rwyf yn argymell plannu gwrychoedd llydan er mwyn creu coridorau bywyd gwyllt sylweddol a'r rhain o leiaf 2 fetr o led. Blychau ystlumod ar ben polion. Rwyf yn argymell bod y cynllun adfer yn cynnwys clogwyn ar gyfer nythu gan wenoliaid y glennydd neu Fur Gwenoliaid y Glennydd Vivara Pro fel sydd wedi'i argymell yn yr Adroddiad Adar, cynefin i ymlusgiaid sy'n addas ar gyfer gaeafu. Mae'r ymgeisydd wedi darparu metrig bioamrywiaeth, ond nid yw hwn yn gymwys i Gymru. Rwyf yn argymell bod Cynllun Adfer diwygiedig yn cael ei ddarparu cyn penderfynu'r cais hwn. Rhaid iddo fod yn fwy manwl a rhaid iddo gynnwys yr holl argymhellion sydd yn yr adroddiadau ecolegol. Argymhellion ar gyfer Amodau Cynllunio:
1. Adfer – Cyn cychwyn unrhyw waith ar gyfer ymestyn y chwarel, rhaid cyflwyno Cynllun Adfer terfynol. Rhaid iddo gynnwys darpariaethau ar gyfer ystlumod, ymlusgiaid, moch daear, gwenoliaid y glennydd a chynefinoedd fel gweirgloddiau blodeuog, cloddiau, gwrychoedd, plannu coed a phyllau dŵr a chynllun rheoli cynefinoedd. Rhaid cwblhau'r gwaith adfer er boddhad yr Awdurdod Cynllunio Lleol.
2. Adar Nythu – Rhaid peidio â chlirio llystyfiant, llwyni neu goed yn ystod tymor nythu adar (1 Mawrth hyd 31 Awst) oni ellir profi

mewn ysgrifen na fydd y gwaith hwnnw'n niweidio adar nythu. Rhaid peidio â difrodi wynebau chwarel lle mae nythfeydd Gwenoliaid y Glennydd tra bydd adar yn nythu.
3. Ymlusgiaid – Ni cheir tynnu gwrychoedd a chloddiau na thynnu pridd heblaw o dan oruchwyliaeth ecolegydd.
4. Rhaid monitro hydroleg gwlyptiroedd ar Safleoedd Bywyd Gwyllt a dyfnderoedd cloddio a lefelau dŵr daear. Rhaid darparu adroddiadau monitro hydroleg i'r Awdurdod Cynllunio Lleol bob chwarter blwyddyn.

**Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd:**

**<u>Cafwyd ymateb ar 13/12/2023:</u>**

Diolch i chi am yr ymgynghoriad uchod. Wedi adolygu'r wybodaeth a gyflwynwyd, mae'n ymddangos nad yw wedi newid (yn nhermau archeoleg a threftadaeth ddiwylliannol) ers yr ymgynghoriad cyn ymgeisio ym mis Tachwedd 2022. Roedd copi o'n hymateb i'r ymgynghoriad cyn ymgeisio wedi'i ddarparu i'r Cyngor (ein cyf. 0105je/D3590.02, 5 Ionawr 2023), ond rwyf wedi atodi copi ychwanegol er hwylustod.

Dau bwynt allweddol a godwyd yn ein hymateb i'r ymgynghoriad cyn ymgeisio oedd nad oedd yr Asesiad Effaith Treftadaeth (HIA) yn cyrraedd safonau proffesiynol ar gyfer asesiad desg archeolegol ac nad oedd gwaith ar ôl cloddio'r ffosydd arbrofol wedi'i gyflawni a bod angen ei gwblhau er mwyn deall y darganfyddiadau. Nid yw'r pwyntiau hyn wedi cael sylw eto. Er bod rôl yr HIA yn y broses gynllunio wedi'i disodli i ryw raddau gan y gwerthusiad maes dilynol, mae'r gwaith ar ôl cloddio (y dyddio radiocarbon yn benodol) yn bwysig. Ar wahân i'r perygl o ddirywio yng nghyflwr y samplau, gall dyddiadau'r nodweddion fod yn ffordd i benderfynu eu pwysigrwydd a dangos y posibilrwydd o gael tystiolaeth gysylltiedig ychwanegol. Felly rydym yn cynghori y dylid cwblhau'r gwaith hwn mor fuan â phosibl, beth bynnag fydd y penderfyniad, er mwyn cydymffurfio â safonau proffesiynol a chwblhau'r rhan hon o'r gwaith.

Mae dogfennau'r cais yn gwneud nifer o wahanol ddatganiadau i'r perwyl ei bod yn annhebygol bod archeoleg helaeth yn bresennol, neu na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith arwyddocaol ar archeoleg. Nid yw'r honiadau hyn wedi'u hategu gan ganlyniadau'r gwerthusiad na gwaith maes blaenorol mewn lleoliadau tebyg. Mae'r gwerthusiad wedi dangos bod olion archeolegol yn bresennol ar y safle, a'r mwyaf arwyddocaol o'r rhain yw'r lloc sy'n debygol o berthyn i'r cyfnod cynhanesyddol hwyr (PRN 96890), y bydd yn rhesymegol ei ystyried yn enghraifft sydd o bwysigrwydd rhanbarthol

o leiaf (ar sail enghreifftiau tebyg yn y rhanbarth). Mae'r lloc hwn yng nghornel dde-orllewinol yr ardal Cyfnod 2, yn ymestyn i'r ardal bresennol lle cafwyd caniatâd ac i fwnd sgrinio arfaethedig. Felly, bydd y datblygiad arfaethedig yn arwain at golli rhan sylweddol neu'r cyfan o'r lloc hwn ac unrhyw nodweddion cysylltiedig. Yn yr ardal Cyfnod 3, cofnodwyd rhigol a allai fod yn arwydd o anheddiad bach, ac mae'n debygol y bydd dyddodion ychwanegol a nodweddion ar ffurf pyllau yn bresennol, sydd heb eu canfod drwy'r gwaith a wnaed hyd yn hyn. Unwaith eto, gellir disgwyl am y tro y bydd y rhain o bwysigrwydd rhanbarthol ar y mwyaf.

Yng ngoleuni'r uchod, ac yn unol â Polisi Cynllunio Cymru 11 (Chwefror 2021) a TAN24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (Mai 2017), rydym yn argymell, os bydd yr awdurdod cynllunio mwynau o blaid rhoi caniatâd cynllunio, y dylai fod yn ofynnol cael rhaglen briodol o fesurau lliniaru archeolegol. Awgrymir y geiriad canlynol er mwyn sicrhau gwaith o'r fath:

*(i) Ni chaiff unrhyw waith datblygu ddigwydd (yn cynnwys clirio'r safle, tynnu uwchbridd neu waith paratoi tir arall) nes bydd cynllun ysgrifenedig o ymchwilio ar gyfer gwaith archeolegol yn cael ei gyflwyno gan yr ymgeisydd (neu ei asiant neu ei olynydd yn y teitl) a'i gymeradwyo mewn ysgrifen gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid cyflawni'r datblygiad a chwblhau'r holl waith archeolegol yn unol â'r cynllun ymchwilio ysgrifenedig a gyflwynwyd.*

*(ii) Rhaid cyflwyno adroddiad dadansoddol manwl ar y gwaith archeolegol sy'n ofynnol o dan amod (i) i'r Awdurdod Cynllunio Lleol o fewn 12 mis ar ôl cwblhau'r gwaith maes archeolegol. Rhaid i'r adroddiad gael ei gymeradwyo mewn ysgrifen gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.*
*Rhesymau: 1) Er mwyn sicrhau bod rhaglen briodol o fesurau lliniaru archeolegol yn cael ei gweithredu yn unol â gofynion Polisi Cynllunio Cymru 2021 a TAN24: Yr Amgylchedd Hanesyddol.*

*2) Er mwyn sicrhau y bydd y gwaith yn gyson â'r canllawiau yn MORPHE/Management of Archaeological Projects (MAP2) a Safonau a Chanllawiau Sefydliad Siartredig yr Archeolegwyr (CIfA).*

Dylai'r rhaglen o fesurau lliniaru archeolegol fod yn un sy'n galw am stripio tyweirch, mapio a chofnodi'r safle gan archeolegwyr cyn dechrau gweithgarwch datblygu, gan gynnal cloddiad llawn ar gyfer unrhyw olion a nodir a chymryd camau ar ôl cloddio fel y bo'n briodol yn ôl y darganfyddiadau a wnaed. Dylai'r arwynebedd ymchwilio gwmpasu'r cyfan o'r gweithgareddau cloddio ac ategol arfaethedig gyda chlustogfa o 2m, er mwyn cofnodi unrhyw

ddyddodion archeolegol a fyddai'n cael eu heffeithio gan dirweddu parhaol neu dros dro, rheoli pridd, a gweithgarwch adeiladu/gweithredu cyffredinol. Os bydd y mesurau lliniaru archeolegol yn cael eu cwblhau fesul cam yn gysylltiedig â'r cyfnodau cloddio, rhaid adrodd ar bob cam ar wahân. Gwneir hyn er mwyn atal colli tystiolaeth drwy ddirywiad amgylcheddol ac er mwyn sicrhau bod y canlyniadau'n cael eu cofnodi a'u cyhoeddi'n brydlon. Gall yr awdurdod cynllunio lleol ddymuno addasu'r geiriad a awgrymwyd uchod er mwyn gadael i'r amod(au) gael eu cyflawni fesul cam wrth i'r datblygiad fynd yn ei flaen: byddaf yn falch o drafod dull gweithredu o'r fath os bydd angen. Cysylltwch â mi yn ddioed os bydd gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr uchod.

**Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru:**

**<u>Ail ymateb a gafwyd ar 23/01/2024:</u>**

Cyfeiriaf at eich ymgynghoriad ar 15/01/2024 ynghylch y cais cynllunio uchod a'ch hysbysu nad yw Llywodraeth Cymru fel yr awdurdod priffyrdd ar gyfer cefnffordd yr A487 yn dyroddi cyfarwyddyd mewn perthynas â'r cais hwn.

**<u>Ymateb cyntaf a gafwyd ar 12/05/2023:</u>**

Cyfeiriaf at eich ymgynghoriad ar 21 Ebrill 2023 ynghylch y cais uchod a'ch hysbysu bod Llywodraeth Cymru fel yr awdurdod priffyrdd ar gyfer cefnffordd yr A487 yn cyfarwyddo nad yw caniatâd cynllunio i gael ei roi ar hyn o bryd gan nad yw'r ymgeisydd wedi darparu digon o wybodaeth i benderfynu'r cais. Rhaid i'r ymgeisydd ddarparu'r wybodaeth ganlynol i ategu'r cais hwn neu ailgyflwyno'r cais gyda'r manylion canlynol:

1. Bydd nifer y symudiadau cerbydau yn cynyddu, fel a nodwyd mewn un o'r adroddiadau, yn y gyffordd i Chwarel Cefn Graianog (Cod post LL54 6SY). Mae arwyddion chwarel wrth y gyffordd hon a all fod mewn llain ymyl ffordd sydd yn briffordd a fabwysiadwyd. Felly, rhaid i'r datblygwr adolygu i weld a yw'r tir hwn yn briffordd a fabwysiadwyd a chynnig newidiadau mewn arwyddion os ydyw (nid yw manylion am berchnogaeth tir yn gymwysadwy). Rhaid i'r datblygwr gyflwyno cynigion ar gyfer y fynedfa hon hefyd er mwyn dangos sut mae cerbydau sy'n gadael y gefnffordd yn cael blaenoriaeth wrth y grid gwartheg ar y ffordd tua'r chwarel dros gerbydau sy'n dod o'r chwarel. Gwneir hyn er mwyn sicrhau na fydd cerbydau mawr yn arafu llif y traffig ac yn rhwystro gweledydd ar y gefnffordd wrth y gyffordd hon o ganlyniad i'r datblygiad.

**Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch:**

Ni chafwyd ymateb.

| | |
|---|---|
| **Yr Uned Iaith a Chraffu** | **<u>Cafwyd ail ymateb ar 11/01/2024:</u>**<br>Anogir yr ymgeisydd i sicrhau bod arwyddion Cymraeg neu ddwyieithog ar y safle. Nid oes tystiolaeth bendant i ategu’r farn economaidd gadarnhaol. Hoffem gyfeirio’r datblygwr at wefan Comisiynydd y Gymraeg a’r Cynnig Cymraeg i’w helpu i greu Cynllun Iaith.<br><br>**<u>Cafwyd yr ymateb cyntaf ar 19/12/2023:</u>**<br>Er mwyn i’r Uned allu cynnig barn deg a chytbwys am y cais, rydym yn annog yr ymgeisydd i ddefnyddio’r data diweddaraf sydd ar gael yn awr o Gyfrifiad 2021, ac i gynnig dadansoddiad manylach, er enghraifft, yn ôl grwpiau oedran ar gyfer ardal yr astudiaeth. Dylid ystyried ailgyflwyno’r diweddariad o’r asesiad cyn cyflwyno’r cais i bwyllgor.<br><br>Anogir yr ymgeisydd i sicrhau bod arwyddion Cymraeg neu ddwyieithog ar y safle.<br><br>Nid oes tystiolaeth bendant i ategu’r farn economaidd gadarnhaol.<br><br>Hoffem gyfeirio’r datblygwr at wefan Comisiynydd y Gymraeg a’r Cynnig Cymraeg i’w helpu i greu Cynllun Iaith. |
| **Ymgyngoriadau â’r Cyhoedd:** | Gosodwyd hysbysiad yn y wasg, gosodwyd hysbysiadau mewn nifer o leoliadau yn agos i’r safle a hysbyswyd preswylwyr cyfagos. Mae’r cyfnod hysbysebu wedi dod i ben, a chafwyd sylwadau yn nodi:<br><br>• Bod yr arwyddion ar gyfer y chwarel yn cyfeirio at y safle fel ‘Penygroes Quarry’ yn Saesneg yn unig, yn groes i bolisïau iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru ac Awdurdod Lleol Gwynedd.<br>• Pryderon am yr asesiad o effaith ddichonol gweithrediadau’r chwarel ar ansawdd aer lleol. |

**5. Asesiad o’r ystyriaethau cynllunio perthnasol**

**Egwyddor y datblygiad**

5.1 Mae’r egwyddor o gael estyniad ochrol i waith mwynau presennol yn seiliedig ar Bolisi Strategol PS 22 a pholisi MWYN 3 yn y CDLlC sy’n cefnogi datblygiadau o’r fath er mwyn cynnal banc tir ardal y cynllun. Polisi Mwynau Strategol PS 22, Polisi MWYN 2 a Pholisi MWYN 3 yng Nghynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn 2011 (CDLlC). Mae Polisi PS 22 yn datgan y bydd y cyngor yn cyfrannu at ddiwallu’r galw lleol a rhanbarthol parhaus am gyflenwad o fwynau drwy gynnal banc tir o 7 mlynedd o leiaf o Dywod a Graean a banc tir o 10 mlynedd o agregau cerrig mâl wrth gefn yn unol â chanllawiau cenedlaethol.

5.2 Nod Polisi MWYN 2 yw darparu ‘Ardaloedd a Ffafrir’ er mwyn cynnal darpariaeth o fwynau i’w cloddio ar gyfer y dyfodol i gwrdd ag anghenion y diwydiant. Mae’r cyfan o’r estyniad

arfaethedig i'r ardal gloddio oddi mewn i ardal a ffafrir benodedig ar gyfer cyflenwi tywod a graean. Pwrpas y polisi hwn yw hwyluso darpariaeth ychwanegol o dywod a graean wrth gefn i gwrdd â'r diffyg a nodwyd yn Natganiad Technegol Rhanbarthol Gogledd Cymru.

5.3 Mae Polisi MWYN 3 yn datgan y cefnogir datblygiadau mwynau er mwyn cynnal banc tir ardal y cynllun lle gellir dangos bod bwriad y cais yn cydymffurfio â'r canlynol:

***1. Nid oes unrhyw niwed annerbyniol i fwynderau nac iechyd trigolion lleol o ran yr effaith weledol, lefelau llwch, sŵn, dirgrynu, arogleuon a golau o ganlyniad i'r gwaith ei hun neu'r symudiadau traffig a geir yn ei sgil;***

***2. Mae yna fyffer addas rhwng datblygiadau mwynau a datblygiadau sensitif;***

***3. Nid oes niwed annerbyniol i sefydlogrwydd a chynhaliaeth tir cyfagos;***

***4. Mae'r datblygiad wedi'i sgrinio a'i dirweddu mewn modd sensitif;***

***5. Ni fydd y datblygiad yn cael effaith andwyol sylweddol ar safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol neu leol o ran yr amgylchedd, cadwraeth natur, y dirwedd ac /neu dreftadaeth;***

***6. Nid yw'r cynnig yn sterileiddio neu'n atal gweithio dyddodion mwynau eraill o bwys;***

***7. Nid oes niwed annerbyniol i ddraeniad dŵr daear ac adnoddau dŵr;***

***8. Mae'r cynnig yn sicrhau y manteisir i'r eithaf ar ddefnydd posib yr adnodd ac y caiff unrhyw wastraff sy'n deillio o'r mwyngloddio ei waredu'n foddhaol;***

***9. Pan fo ffrwydro'n rhan o'r cynnig, mae'r cynnig yn cynnwys cynllun ffrwydro i ddangos y gellir ei reoli i ddiwallu'r anghenion a fanylir arnynt yn Nodyn Cyngor Technegol Mwynau NCTM (Cymru) 1: Agregau, neu unrhyw ddiwygiadau;***

***10. Mae'r bwriad yn cynnwys cynllun ôl-ddefnydd ar gyfer y safle a manylion y gwaith adfer ac ôl-ofal sy'n ofynnol i gyflawni hynny yn unol â Pholisi MWYN9;***

***11. Pan fo'n ymarferol yn economaidd, dylid cludo gwastraff neu gynnyrch mwynau ar y rheilffyrdd neu ar ddŵr.***

5.4 Mae Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 (PPW) yn integreiddio polisïau cynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu mwynau a oedd wedi'u cynnwys o'r blaen yn Polisi Cynllunio Mwynau Cymru (2001). Yn unol â'r gofyniad yn PPW 11, mae dyletswydd ar Gyngor Gwynedd fel yr Awdurdod Cynllunio Mwynau i sicrhau bod adnoddau mwynol yn cael eu defnyddio mewn ffordd gynaliadwy fel y byddant yn gallu gwneud cyfraniad priodol at gwrdd ag anghenion yr ardal am ddeunyddiau adeiladu. Y prif egwyddorion a nodwyd yn adran 5.14 (Mwynau) yn PPW yw:

- Darparu'n gadarnhaol ar gyfer diogelwch a gwaith adnoddau mwynau i ddiwallu anghenion cymdeithas heddiw ac yfory, gan annog defnydd effeithlon a phriodol o ddeunyddiau o safon uchel;
- Gwarchod nodweddion amgylcheddol a diwylliannol lleoedd, gan gynnwys y rhai â phriodoleddau cynhenid megis bywyd gwyllt, tirweddau, coetiroedd hynafol a nodweddion hanesyddol, ac amddiffyn iechyd a diogelwch a llesiant cyffredinol pobl;

- Lleihau effaith cloddio am fwynau a gweithrediadau cysylltiedig yn ystod y cyfnod gweithio trwy sicrhau bod unrhyw effaith ar nodweddion amgylcheddol perthnasol a achosir wrth echdynnu mwynau a chludo mwynau, er enghraifft, ansawdd aer a seinwedd, o fewn y terfynau derbyniol; ac
- Adfer y tir i safon uchel fel nad yw'n dirywio i gyflwr diffaith a dod â manteision gwirioneddol i gymunedau a/neu fywyd gwyllt, gan gynnwys ôl-ddefnyddiau buddiol neu gyfleoedd i wella bioamrywiaeth a'r amgylchedd hanesyddol.

Ymysg yr amcanion eraill, mae Polisi Cynllunio Cymru yn cydnabod bod gweithio mwynau yn wahanol i fathau eraill o ddatblygu gan nad yw'r cloddio ond yn gallu digwydd lle ceir y mwynau, a gan fod y datblygiad yn un dros dro ac na ellir ei ystyried yn ddefnydd tir parhaol er bod gweithrediadau'n gallu digwydd dros gyfnod hir.

5.5 Mae Cyngor Gwynedd, ynghyd â'r holl Awdurdodau yng Nghymru, wedi cymeradwyo'r Datganiad Technegol Rhanbarthol a luniwyd gan Weithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWRAWP). Paratowyd y datganiad hwn yn unol â darpariaethau Polisi Cynllunio Mwynau (Cymru) a Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 1: Agregau (MTAN1), er mwyn gosod amcan cyffredinol i sicrhau cyflenwad o agregau sy'n cael ei reoli'n gynaliadwy:

5.6 *".... fel y ceir y cydbwysedd gorau rhwng ystyriaethau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol, gan sicrhau bod yr effeithiau ar yr amgylchedd ac amwynderau o unrhyw waith cloddio angenrheidiol yn cael eu cadw ar lefel sy'n osgoi achosi niwed profadwy i fuddiant o bwysigrwydd cydnabyddedig".*

5.7 Prif bwrpas y Datganiad Technegol Rhanbarthol yw amlinellu'r strategaeth ar gyfer darparu agregau yn rhanbarth Gogledd Cymru. Yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol yn 2021 nodwyd bod cronfa bresennol a ganiatawyd o 1.175 miliwn o dunelli (yn cyfateb i fanc tir o 6.7 blynedd) o dywod a graean yng Ngwynedd, bod diffyg a bod angen dyrannu o leiaf 2.659 miliwn o dunelli i gwrdd â'r ddarpariaeth sydd ei hangen.

5.8 Byddai'r estyniad arfaethedig yn rhyddhau tua 792,803 o dunelli o dywod a graean yn ychwanegol i'r 298,000 o dunelli sy'n weddill yn y man cloddio presennol sydd â chaniatâd (gan roi cyfanswm o 1.1 miliwn o dunelli i'w cloddio o'r safle). Felly, bydd bwriad y cais yn darparu mwynau ychwanegol ac yn lleihau'r diffyg presennol yn y banc tir yn unol â'r gofyniad ym Mholisi Strategol 22: Mwynau, MWYN 2 a MWYN 3 yn y CDLlC. Yn ogystal ag egwyddor yr angen am y datblygiad, mae'r materion cynllunio hanfodol yn yr achos hwn yn cael eu trafod yn y penodau sy'n dilyn.

**Amwynderau gweledol a thirwedd**

5.9 Mae safle Cae Efa Lwyd yn union i'r gorllewin o Ben-y-groes ac mae'r ardal arfaethedig ar gyfer cloddio yn ymestyn tua'r gogledd. Nid yw'r cais yn dod o fewn unrhyw dirweddau a ddynodwyd ac mae'n ardal sy'n cael ei nodweddu'n bennaf gan bentref Pen-y-groes tua'r Dwyrain, tir amaethyddol caeedig ac anheddau gwasgaredig. Ymhlith y dynodiadau tirwedd cyfagos y mae Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol 'Dyffryn Nantlle' (60m i'r dwyrain), Ardal Tirwedd Arbennig 'Ymylon Gogledd-orllewinol Eryri' (900m i'r dwyrain), Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) (2.3km i'r de-orllewin), Safle Treftadaeth y Byd UNESCO 'Tirweddau Llechi Gogledd-orllewin Cymru' (2.8km i'r dwyrain).

5.10 Mae Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol (ATEW) wedi'i gynnwys yn y Datganiad Amgylcheddol a gyflwynwyd. Fel y nodwyd uchod, nid yw'r safle o fewn unrhyw ddynodiadau

tirwedd statudol ond mae'r cyfan ohono o fewn Ardal Cymeriad Tirwedd Arfordir a Gwastatir Caernarfon sy'n ymestyn o Glynnog Fawr yn y de i Fangor yn y gogledd. Mae'r ardal yn cynnwys porfeydd bryniog rhwng yr iseldiroedd arfordirol a godre mynyddoedd Eryri, wedi'u gwahanu gan ddyffrynnoedd bas sy'n rhedeg tua'r gorllewin gyda therfynau caeau sy'n cynnwys cymysgedd o goetir, waliau cerrig a gwrychoedd mewn cyflwr amrywiol.

5.11 Yn ogystal â'r asedau tirwedd dynodedig hyn, mae'r ATEW yn cynnwys yr asedau tirwedd sydd heb eu dynodi yn yr ardal o amgylch y safle. Cyn asesu unrhyw effaith ddichonol ar y dirwedd, mae gwerth, sensitifrwydd a derbynnedd presennol y safleoedd hyn wedi'u pennu.

5.12 Y prif effeithiau a newidiadau o ran y dirwedd o ganlyniad i'r datblygiad fydd gostyngiad graddol yn lefel y tir, gweithrediadau symudol yn y chwarel, bwnd sgrinio 5m o uchder o bridd ar hyd y ffin ddwyreiniol, adfer y safle fel bod y llawr yn is na'r lefelau gwreiddiol ac fel y ceir tir amaethyddol a bywyd gwyllt gwell.

5.13 Mae'r ATEW wedi dynodi derbynyddion yn yr ardaloedd o gwmpas y safle a fydd yn profi'r effaith niweidiol fwyaf, yn ystod y cyfnod gweithredol yn benodol. Mae hyn yn ganlyniad i'r gwaith graddol o gloddio am fwynau a fydd yn newid y dirffurf. Bydd effaith hefyd ar ardaloedd o dir uwch yn ystod y gweithrediadau. Fodd bynnag, bydd pellter yr ardaloedd hyn ynghyd â'r olygfa banoramig eang a geir ohonynt yn lleihau'r effaith hon.

5.14 Mae'r lluniad 'No. KD.PEN.D.006A' yn dangos manylion y cynllun cysyniad adfer ar gyfer y safle i greu tir amaethyddol a chynefin bywyd gwyllt. Mae'r cynllun yn cynnwys:
• Tir pori heb ei aflonyddu;
• Tir pori wedi ei adfer;
• Glaswelltir Cyfoethog ei Rywogaethau a reolir yn amaethyddol;
• Plannu coed a llwyni brodorol;
• Pyllau dŵr wyneb dros dro; a
• Gwrychoedd / coed gwrychoedd brodorol ac adfer Clawdd/Cloddiau.

5.15 Mae'r ATEW hefyd yn datgan y bydd lefel yr effaith weledol ar ôl adfer y safle yn niwtral neu'n llesol heb unrhyw effaith weledol niweidiol ar y derbynyddion.

5.16 Lluniwyd cynllun adfer cysyniadol sy'n dangos bwriad i adfer tir amaethyddol a chynefinoedd bywyd gwyllt. Bydd hyn yn cynnwys tir pori sydd heb ei aflonyddu ac wedi ei adfer, glaswelltir cyfoethog ei rywogaethau, plannu coed a llwyni brodorol, pyllau dŵr, gwrychoedd a chloddiau. Cedwir y fynedfa i gerbydau ar gyfer mynediad ar gyfer amaethyddiaeth a rheoli tir a bydd cynllun rheoli ac ôl-ofal 5 mlynedd ar gyfer y safle.

5.17 Codwyd pryderon gan yr Uned Polisi Pridd a Chynllunio Defnydd Tir Amaethyddol (Llywodraeth Cymru) am yr ymarferoldeb o adfer y safle i ddarparu'r Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (BMV) a materion yn ymwneud â dŵr daear. Mae materion mewn perthynas â dŵr daear wedi cael eu datrys ac maent yn cael eu trafod isod yn y bennod ar Hydroleg.

5.18 Mae'r Uned Polisi Pridd a Chynllunio Defnydd Tir Amaethyddol o'r farn mai tir Gradd 3 (a a b) yn y Dosbarthiad Tir Amaethyddol yw'r safon tir briodol yn yr achos hwn ac y bydd 0.81ha o'r tir hwn yn cael ei golli. Mae paragraff 3.59 o PPW yn datgan *"Wrth ystyried y drefn chwilio ac ym mholisïau'r cynllun datblygu a'r penderfyniadau rheoli datblygu, dylid rhoi cryn bwys ar ddiogelu tir o'r fath rhag ei ddatblygu, oherwydd ei bwysigrwydd arbennig. Ni ddylid datblygu tir o raddau 1, 2 a 3a, onid oes* ***angen sy'n drech na dim arall am y datblygiad****, ac os nad oes tir a ddefnyddiwyd o'r blaen neu dir o raddau amaethyddol is ar gael, neu os oes gan y tir o radd*

*amaethyddol is werth amgylcheddol a gydnabyddir drwy ddynodiad tirwedd, bywyd gwyllt, hanesyddol neu archeolegol, a bod hynny'n drech na'r ystyriaethau amaethyddol."*

5.19 Fel a drafodwyd uchod, mae angen sy'n drech na dim arall am y datblygiad hwn er mwyn cwrdd â galw (sydd wedi'i gefnogi gan bolisïau cynllunio lleol a chenedlaethol) gan mai dim ond lle ceir y mwyn y gellir ei echdynnu. Mae'r Uned Polisi Pridd a Chynllunio Defnydd Tir Amaethyddol wedi darparu rhestr o amodau ar gyfer adfer tir amaethyddol ac ôl-ofal amaethyddol.

5.20 Credir felly, os ceir cynllun adfer manwl a chynllun ôl-ofal a gytunir o dan amod cynllunio, y bydd hyn yn ddigon i liniaru'r effeithiau ar y dirwedd a'r effeithiau gweledol sy'n ddichonol o ganlyniad i'r datblygiad a bod hyn yn gyson â'r gofynion ym Mholisïau Strategol PS 19, PS 20 a Pholisïau AMG 3, MWYN 3 a MWYN 9 yn Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn.

**Amwynderau cyffredinol a phreswyl**

5.21 Mae Polisi MWYN 3 yn y CDLlC yn datgan y bydd estyniadau i safleoedd mwynau presennol yn dderbyniol ar yr amod na wneir niwed annerbyniol i amwynder neu iechyd preswylwyr yn nhermau effaith weledol, lefelau llwch, sŵn, dirgryndod, a golau o ganlyniad i'r gweithrediadau eu hunain neu'r symudiadau traffig sy'n ganlyniad iddynt.

5.22 Mae MTAN 1 Cymru: Agregau yn cydnabod bod gwrthdaro yn aml rhwng gwaith mwynau a mathau eraill o ddefnydd tir ac mae wedi sefydlu'r egwyddor o greu clustogfeydd o gwmpas safleoedd cloddio mwynau a ganiatawyd ac a ddynodwyd. Yr amcan wrth osod clustogfa yw diogelu mathau o ddefnydd tir sy'n fwyaf sensitif i'r effaith o weithrediadau mwynau drwy bennu pellter gwahanu. Mae MTAN 1 yn argymell ymhellach y dylid mabwysiadu pellter lleiaf o 100 metr ar gyfer safleoedd cloddio tywod a graean ac y dylai cynlluniau datblygu ddangos ffin y glustogfa ar gyfer pob gwaith mwynau.

5.23 Mae Polisi Cynllunio Mwynau Cymru a MTAN1: Agregau ill dau wedi sefydlu'r egwyddor o greu clustogfeydd o amgylch safleoedd cloddio mwynau, lle mai'r amcan yw diogelu'r mathau o ddefnydd tir sy'n fwyaf sensitif i effaith gweithrediadau mwynau drwy bennu pellter gwahanu rhwng mathau o ddefnydd tir a allai wrthdaro â'i gilydd. Y diffiniad o ddatblygiad sensitif yn MTAN1 yw: "unrhyw adeilad a feddiennir gan bobl yn rheolaidd ac mae hyn yn cynnwys ardaloedd tai, hostelau, mannau cyfarfod, ysgolion ac ysbytai lle disgwylir safon dderbyniol o amwynder". Mae ffin y glustogfa yn dechrau o ymyl allanol yr ardal weithredol, yn cynnwys ffyrdd cludo ar y safle a lagwnau. Mae MTAN1 yn argymell pellter lleiaf o 100 metr ar gyfer gweithrediadau tywod a graean a gweithrediadau eraill lle na chaniateir ffrwydro.

5.24 Safbwynt Llywodraeth Cymru yw y dylid mabwysiadu'r clustogfeydd oni bai fod rhesymau cyfiawnadwy dros leihau'r pellter hwn. Ar y safle hwn, roedd y gwaith presennol a ganiatawyd yn destun Adolygiad o Hen Ganiatadau Mwynau (ROMP) (a gytunwyd/caniatawyd yn 2017) a gododd y mater bod gwrthdaro clir â pholisi cynllunio lleol a chenedlaethol mewn perthynas â'r clustogfeydd. Ceir unedau eiddo preswyl o fewn 100m i'r gwaith gwreiddiol. Er hynny, roedd yr egwyddor o gloddio ar y safle wedi'i sefydlu eisoes drwy roi caniatâd cynllunio. Bwriad y cynigion sy'n destun i'r cais hwn yw ymestyn y safle tua'r gogledd, oddi wrth unedau eiddo preswyl a'r tu allan i'r glustogfa 100m. Oherwydd y pellter gwahanu, a'r dystiolaeth sy'n dangos bod y safle eisoes yn cael ei weithredu heb wneud niwed i amwynder, o dan delerau amodau cynllunio a/neu drwyddedau amgylcheddol, credir bod bwriad y cais yn gyson â Pholisi PCYFF 2 a MWYN 3.

5.25 Mae materion sy'n ymwneud â sŵn, dirgryndod ac ansawdd aer yn cael eu trafod yn fwy manwl isod.

**Sŵn a dirgryndod**

5.26 Mae'r asesiad sŵn a gyflwynwyd wedi ymdrin â'r sŵn o weithrediadau sy'n gysylltiedig â'r datblygiad arfaethedig ar gyfer ymestyn y safle a'r effeithiau sŵn ar y derbynyddion sensitif agosaf yn senario yr achos gwaethaf lle mae'r holl weithgareddau'n digwydd yr un pryd. Cymharwyd y canlyniadau hyn â'r terfynau sŵn a nodwyd yn y canllawiau.

5.27 Cynhaliwyd arolwg sŵn llinell sylfaen di-dor dros gyfnod a oedd yn cynnwys dyddiau'r wythnos a phenwythnosau yn y safleoedd agosaf sy'n sensitif i sŵn. Yn yr asesiad, ystyriwyd y gweithrediadau cloddio a chludo deunyddiau o'r safle. Mae'r asesiad yn dod i'r casgliad, ar sail terfyn o 10dB(A) (uwchlaw lefel y sŵn cefndir cyffredinol, yn unol â'r canllawiau yn MTAN 1) y byddai'r lefelau sŵn a ragwelir yn cyrraedd lefel effaith ac effaith arwyddocaol o 'Dim'. Mae adran 4.2 o'r asesiad yn cynnwys nifer o fesurau lliniaru i leihau neu ostegu unrhyw sŵn a gynhyrchir ar y safle. Mae'r rhain yn cynnwys:

- *Byddai gweithgareddau o fewn y safle yn cael eu cyflawni mewn lleoliadau lle byddai'r gostegu ar sŵn gan dirffurfiau presennol yn dod â'r budd mwyaf i'r eiddo sy'n sensitif i sŵn; osgoi troi peiriannau yn ddiangen a diffodd cyfarpar pan nad oes ei angen;*
- *Lle bynnag y bo modd, byddai llwybrau cludo mewnol yn cael eu cyfeirio fel eu bod ar y pellteroedd gwahanu mwyaf posibl oddi wrth eiddo sy'n sensitif i sŵn;*
- *Defnyddio leinin rwber mewn cafnau arllwys a lorïau codi, er enghraifft, er mwyn lleihau effeithiau sŵn;*
- *Byddai'r holl ffyrdd cludo yn cael eu cadw'n lân ac mewn cyflwr da er mwyn atal sŵn cloncian a'r trwst o gerbydau gwag;*
- *Cychwyn peiriannau a cherbydau fesul un ac nid yr un pryd;*
- *Bydd yr holl beiriannau symudol a cherbydau nwyddau trwm sy'n dod i'r safle yn symud mewn cylch er mwyn lleihau sŵn o systemau rhybuddio wrth facio'n ôl, i'r graddau bod hyn yn ymarferol a diogel;*
- *Byddai peiriannau'n cael eu gweithredu mewn modd priodol mewn perthynas â lleihau allyriannau sŵn, er enghraifft, gollwng o lai o uchder a dim troi peiriannau'n ddiangen;*
- *Byddai gwaith cynnal a chadw ar beiriannau'n cael ei gyflawni'n rheolaidd.*
- *Byddai tawelyddion effeithiol yn cael eu gosod ar bibellau egsôst yr holl beiriannau ar y safle a byddai'r peiriannau'n cael eu cadw mewn cyflwr da er mwyn cwrdd â'r lefelau sŵn sydd wedi'u pennu gan weithgynhyrchwyr. Byddai tawelyddion diffygiol yn cael eu cyfnewid ar unwaith;*
- *Byddai peiriannau sy'n cael eu defnyddio'n ysbeidiol yn cael eu diffodd pan nad ydynt yn cael eu defnyddio;*
- *Byddai pympiau, generaduron a chywasgwyr yn cael eu lleoli y tu ôl i dwmpathau sgrinio presennol neu dirffurfiau, byddent yn rhedeg ar drydan a byddai gorchudd acwstig amdanynt lle'r oedd angen. Os defnyddir pympiau, generaduron a chywasgwyr sy'n rhedeg ar ddiesel, byddant yn cael eu gosod mewn unedau acwstig caeedig.*

5.28 Ymgynghorwyd ag Uned Gwarchod y Cyhoedd yr awdurdod lleol er mwyn cael sylwadau am gynnwys yr asesiad a'r cynigion. Mae'n derbyn casgliad yr asesiad os gosodir amodau ar gyfer mesurau lliniaru, defnyddio larymau bacio'n ôl 'sŵn gwyn' a chadw'r rhwystr acwstig a'r bwnd ar hyd terfyn de-ddwyreiniol y safle.

5.29 Os gosodir amodau priodol, credir bod bwriad y cais yn gyson â'r polisïau perthnasol yn MWYN 3 a PCYFF 2 yn y CDLlC.

**Ansawdd Aer a Llwch**

5.30 Mae'r effeithiau ar ansawdd aer (llwch yn benodol) mewn derbynyddion lleol yn codi o ganlyniad i weithrediadau sy'n gysylltiedig â'r estyniad arfaethedig wedi cael eu hasesu ym

mhennod 9 o'r Datganiad Amgylcheddol ac yn yr asesiad effaith llwch sydd gydag ef. Yn yr asesiad effaith llwch, aseswyd yr effeithiau dichonol o ronynnau sy'n codi o weithrediadau ar y safle mewn perthynas â gronynnau $PM_{10}$ a $PM_{2.5}$.

5.31 Mae'r asesiad yn dod i'r casgliad mai ychydig o botensial sydd yn y gweithrediadau arfaethedig i dorri safonau ansawdd aer.

5.32 Codwyd pryderon gan Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â rheoli ansawdd aer. Fodd bynnag, mae Uned Gwarchod y Cyhoedd yr awdurdod lleol wedi adolygu cynnwys yr asesiad effaith llwch ac mae'n cytuno â'r casgliad mai dibwys fydd yr effeithiau. Amodau mewn perthynas â diweddaru'r 'Cynllun Monitro a Rheoli Llwch' gan ddilyn lefelau penodol ar gyfer ansawdd aer, cyfyngiadau ar niwsans sŵn, monitro ansawdd aer/arolwg llwch os ceir cwynion, cyfleuster golchi olwynion a gosod llenni dros gerbydau (os ydynt yn cario mwynau â dimensiwn o lai na 100mm).

5.33 Os gosodir amodau priodol, credir bod bwriad y cais yn gyson â'r polisïau perthnasol yn MWYN 3 a PCYFF 2 yn y CDLlC.

**Materion Traffig a Hawliau Tramwy**

5.34 Mae Polisi TRA 4 yn y CDLlC yn datgan: *"Gwrthodir cynigion a fyddai'n peri niwed annerbyniol i weithrediad diogel ac effeithlon y briffordd, cludiant cyhoeddus a rhwydweithiau cludiant eraill gan gynnwys llwybrau i gerddwyr, beicwyr, hawliau tramwy cyhoeddus a llwybrau marchogaeth. Bydd graddfa niwed annerbyniol yn cael ei benderfynu gan yr awdurdod lleol achos wrth achos."*

5.35 Byddai'r safle yn parhau i ddefnyddio'r fynedfa i gerbydau a ddatblygwyd o dan ganiatâd cynllunio C17/0455/22/LL gyda chynnig i gynyddu cyfradd uchaf y llwythi ar gerbydau nwyddau trwm sy'n gadael y safle i 25 (o 20 o dan yr amodau presennol). Bydd y cerbydau nwyddau trwm yn cludo llwythi o 20 tunnell ar gyfartaledd i Chwarel Cefn Graianog lle bydd y deunydd yn cael ei brosesu. Mae'r fynedfa i gerbydau ar gyfer y safle yn sefyll ar Ffordd Clynnog (Priffordd Dosbarth 3) sy'n cysylltu â Chefnffordd yr A487 (tua 380m i ffwrdd).

5.36 Mae Uned Drafnidiaeth Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau nad yw'n gwrthwynebu'r cynnydd arfaethedig yn nifer y symudiadau traffig dyddiol. Yn wreiddiol, roedd Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (NMWTRA) wedi gosod cyfarwyddyd atal ar y cais mewn perthynas â lleoliad arwydd ar lain ymyl ffordd a threfniadau cyffordd (ger Nasareth) ar Gefnffordd yr A478 a ffordd ddiddosbarth i Chwarel Cefn Graianog. Er bod gweithredwr/ymgeisydd y safle (Cae Efa Lwyd) yn bwriadu cludo'r mwynau i'w prosesu ar safle Cefn Graianog, nid oes gwarant na gofyniad yn pennu cyrchfan nesaf y deunydd a gloddiwyd (ac nid oes modd gosod amod ar gyfer hyn). Cadarnhaodd NMWTRA ar 23/01/24 nad yw bellach yn gosod cyfarwyddyd mewn perthynas â hyn.

5.37 Yr Hawl Tramwy agosaf i'r safle yw Hawl Tramwy Llanllyfni 37 sy'n mynd heibio i gornel ogledd-ddwyreiniol ffin y cais. Cafwyd cadarnhad ar ôl ymgynghori â'r swyddogion Hawliau Tramwy eu bod o'r farn na fydd bwriad y cais yn effeithio ar unrhyw lwybrau.

5.38 Felly, credir nad yw bwriad y cais yn achosi unrhyw berygl i'r rhwydwaith priffyrdd ac i hygyrchedd llwybrau troed a'i fod yn gyson â Pholisi Strategol PS 4 a TRA 4 y CDLlC.

**Hydroleg a Hydroddaeareg**

5.39 Mae Asesiad Effaith Hydrolegol ac Asesiad Canlyniadau Llifogydd gyda'r cais.

5.40 Yn ystod y cyfnod ymgynghori cyntaf, roedd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi codi pryderon ynghylch cydymffurfio â'r gofyniad i weithio uwchlaw'r lefel trwythiad ac ynghylch dŵr wyneb ffo. Roedd gwybodaeth ychwanegol a rannwyd gan yr asiant drwy e-bost ar 16/10/2023 yn cadarnhau bod dŵr daear yn cael ei fonitro ar hyn o bryd drwy rwydwaith o dyllau turio. Cadarnhaodd yr asiant fod pegiau ar lefel y ddaear a byrddau lefelau yn cael eu gosod yn y ddaear yn ystod gweithrediadau i sicrhau bod y gwaith yn aros ar lefelau a gymeradwywyd ac mae wedi cynnig cynnal arolygon topograffigol blynyddol i sicrhau cydymffurfio â'r lefelau a gymeradwywyd.

5.41 Roedd yr Asesiad Effaith Hydrolegol a luniwyd gan Hafren Water yn cadarnhau y bydd y dirffurf yn ystod gweithrediadau ac ar ôl adfer y safle yn rhedeg i lawr tuag at i mewn er mwyn sicrhau bod dŵr wyneb ffo yn cael ei gadw a hefyd y bydd trwch o 1m o dywod a graean yn cael ei gadw uwchlaw'r lefel trwythiad a fydd yn gweithio fel suddfan dŵr. Mae CNC wedi cadarnhau bod y wybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd yn dderbyniol a'i fod wedi'i fodloni y gellir rheoli unrhyw effeithiau o'r datblygiad drwy gynnwys amod(au) ac mae'n cynghori y dylid rhoi gwybod ar unwaith am dorri unrhyw amodau i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a CNC.

5.42 Mae'r Datganiad Amgylcheddol (gyda'r Asesiad Effaith Hydrolegol yn atodiad iddo) yn nodi y bydd y mesurau lliniaru ar gyfer gorlifiau damweiniol i gyrsiau dŵr yn cynnwys:

- ***Ni fydd tanwydd yn cael ei storio ar y safle. Cedwir bowserau tanwydd ar y safle i hwyluso ail-lenwi â thanwydd yn unig a bydd cragen ddwbl amdanynt a/neu byddant o fewn bwnd;***
- ***Cynhelir yr holl beiriannau yn unol â'r arferion gorau a manyleb y gweithgynhyrchydd. Lle bo modd, bydd yr holl waith cynnal a chadw yn cael ei gyflawni oddi ar y safle;***
- ***Bydd gweithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau lle mae hydrocarbonau yn cael eu colli'n ddamweiniol. Cyflwynir copi o'r System Gweithio Diogel yn Atodiad 3013/HIA/A4 i Atodiad Technegol F.1;***
- ***Bydd pecynnau ar gael ar y safle i ddelio â gorlifiau os ceir digwyddiadau annhebygol o'r fath.***

5.43 Bydd mesurau lliniaru blaenorol a oedd wedi'u cynnwys mewn amodau yn y ROMP a gytunwyd yn cael eu hailosod ar gyfer yr estyniad arfaethedig. Mae'r rhain yn cynnwys:

- ***Gosodir bwnd bach o amgylch ymyl y safle a fydd yn cadw unrhyw ddŵr wyneb o fewn y chwarel ac yn ei adael i wasgaru a draenio'n naturiol drwy'r mwynau ar y safle drwy suddfan dŵr tra bydd y safle yn weithredol. Cedwir y suddfan dŵr yn rhan o'r cynigion ar gyfer adfer yng ngwagle gogledd-orllewinol y chwarel a bydd hwn yn darparu corff dŵr dros dro gyda manteision ychwanegol i fywyd gwyllt.***
- ***Gosodir draen ochr yn ochr â'r ffyrdd mynediad i gymryd y dŵr ffo oddi ar y ffordd.***
- ***Cymerir mesurau priodol i sicrhau bod y storfeydd tanwydd, gollyngiadau o beiriannau ac unrhyw ffynonellau llygredd eraill yn cael eu rheoli er mwyn sicrhau na fydd llygredd yn cyrraedd dŵr daear.***
- ***Ni fydd tanwydd yn cael ei storio ar y safle. Cludir yr holl danwydd mewn bowser o Gefn Graianog pan fydd ei angen. Mae Ellesmere Sand and Gravel yn dilyn gweithdrefn benodol ar***

***gyfer ail-lenwi â thanwydd. Bydd cragen ddwbl am y browser tanwydd, gellir ei gloi'n ddiogel, bydd pecyn ar ei fwrdd i ddelio â gorlifiau, gosodir ffroenell bibell arno sy'n stopio'n awtomatig, ni fydd draen yn y tanc mewnol na'r tanc allanol felly dim ond drwy bwmpio y gellir ei wagio.***

- ***Dim ond mân waith cynnal a chadw / gwasanaethu a gyflawnir ar beiriannau ym Mhen-y-groes. Byddai'r holl waith mawr yn cael ei symud i Gefn Graianog a'r tasgau'n cael eu cyflawni yno lle mae'r cyfleusterau wedi'u gosod.***

5.44 Yn ogystal â hyn, mae canllawiau statudol CNC ar fesurau atal llygredd yn cynnwys:

- Bod peiriannau ac olwynion i gael eu golchi ar lawr caled sydd o leiaf 10m oddi wrth unrhyw gwrs dŵr neu ddraen dŵr wyneb.
- Bod dŵr ffo i gael ei gasglu mewn pydew a'i ailgylchu a'i ailddefnyddio os oes modd.
- Bod pridd sydd wedi setlo i gael ei symud yn rheolaidd.
- Dylid gofyn am ganiatâd ymlaen llaw gan y darparwr carthffosiaeth lleol cyn gollwng dŵr a gadwyd i garthffos dŵr budr, os yw'n bosibl.

5.45 Mae'r safle o fewn 'Parth A' yn y Mapiau Cyngor Datblygu (DAM) sydd yn Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd (TAN 15). Y disgrifiad o Barth A yw *"Ystyrir mai ychydig neu ddim risg sydd o lifogydd afonol neu lanwol/arfordirol"* ac nid yw prawf cyfiawnhad yn gymwysadwy.

5.46 Credir bod modd rheoli unrhyw faterion sy'n ymwneud â dŵr wyneb a dŵr daear os bydd amodau perthnasol yn cael eu gosod ac mae bwriad y cais yn gyson â gofynion polisïau MWYN 3 a PCYFF 6 yn y CDLlC.

**Materion ecolegol a bioamrywiaeth**

5.47 Nid yw'r safle o fewn unrhyw ardaloedd a ddynodwyd mewn cysylltiad eg ecoleg/bioamrywiaeth ac mae'r rhan fwyaf o'r safle yn laswelltir ar iseldir sydd wedi'i led-wella neu ei wella'n amaethyddol. Ymhlith y safleoedd gwarchodedig agosaf y mae Safle Bywyd Gwyllt 'Rhif 596 De Minffordd' yn union i'r gorllewin o'r safle, Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) 'Glynllifon' sydd tua 1km i'r gogledd a SoDdGA 'Cors Llanllyfni' ac ACA 'Corsydd Eifionydd' sydd yn 1.2km i'r de.

5.48 Mae'r dogfennau technegol a gyflwynwyd gyda'r Datganiad Amgylcheddol yn cynnwys: Arfarniad Ecolegol Rhagarweiniol, Adroddiad ar Arolwg o Adar Nythu, Adroddiad ar Arolwg o Ymlusgiaid, Adroddiad ar Arolwg o Weithgarwch Ystlumod, Adroddiad ar Arolwg o Foch Daear, Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac Adroddiad ar Enillion Net o ran Bioamrywiaeth.

5.49 Nododd ecolegydd y cyngor yn ystod archwiliad yn Chwefror 2023 fod brochfa moch daear a oedd yn destun amod ar liniaru effeithiau mewn caniatâd cynllunio blaenorol wedi mynd i gyflwr gwael a gofynnodd am gwblhau gwaith i ddarparu ffens, gât â chlo a phlannu coed o amgylch y frochfa. Ym mis Gorffennaf 2023, cyflawnwyd y gwaith hwn i ailosod ffens a gât o amgylch brochfa artiffisial wag a darparwyd manyleb ar gyfer gwaith plannu a monitro arfaethedig. Yn yr Adroddiad ar Arolwg o Foch Daear a gyflwynwyd, nodwyd bod dwy frochfa moch daear y tu allan i'r mannau cloddio ac argymhellwyd y dylid creu clustogfa o 30m i'w diogelu.

5.50 Ni chofnodwyd unrhyw ymlusgiaid yn ystod yr arolwg o'r safle. Mae Ecolegydd y Cyngor yn cynghori na ddylid cymryd bod y diffyg cofnodion o ymlusgiaid yn rhoi sicrwydd nad ydynt bresennol (gan fod cofnodion diweddar o ymlusgiaid yn yr ardal o gwmpas). Mae'r adroddiad yn cynghori ei bod yn bosibl bod ymlusgiaid yn symud drwy'r safle i gynefinoedd cyfagos, y dylai ecolegydd â chymhwyster addas gynnal chwiliad manwl cyn pob gwaith tynnu pridd ac y dylid symud unrhyw ymlusgiaid a geir oddi ar y safle. Mae ecolegydd y cyngor wedi cadarnhau ei fod yn cytuno â'r dull hwn o weithredu.

5.51 Mae'r Adroddiad ar yr Arolwg o Adar Nythu wedi cadarnhau bod 25 o rywogaethau o adar nythu wedi cael eu cyfrif ac mae'n argymell bod llystyfiant yn cael ei dynnu y tu allan i'r tymor nythu (Chwefror-Awst). Os na fydd hyn yn bosibl, yna mae'n cynghori y dylid tynnu llystyfiant ar ôl cynnal arolygon gan ecolegydd â chymhwyster addas er mwyn chwilio am bresenoldeb adar nythu a chynghori ar waith yn unol â hynny. Ymhlith y mesurau lliniaru a gynigiwyd y mae Mur Gwenoliaid y Glennydd, plannu prysgwydd (Mieri, Drain Gwynion, Drain Duon, Coed Ysgaw a Chyll) ar ffurf clystyrau a gwrychoedd.

5.52 Cofnodwyd nifer o wahanol rywogaethau o'r ystlum yn ystod yr Arolygon o Weithgarwch Ystlumod ar ôl arsylwi ar y safle ac ar hyd ei ffiniau. Ni fydd yr estyniad i'r safle y arwain at golli clwydfannau ystlumod ond fe fydd yn arwain dros dro at golli coridorau bywyd gwyllt ar gyfer ystlumod sy'n chwilota am fwyd. Yr argymhellion ar gyfer lliniaru'r effeithiau hyn yw ailblannu llwyni, gwrychoedd a chloddiau yn ystod y cyfnod adfer.

5.53 Er bod y cysyniad adfer ar gyfer y safle yn rhoi cyfle i sicrhau tir pori garw a gwella amrywiaeth, credir y dylid cyflwyno cynllun ôl-ofal manwl i'w gymeradwyo gan yr awdurdod cynllunio mwynau cyn cychwyn datblygu'r safle er mwyn pennu'r defnydd gorau o adnoddau pridd ar y safle ynghyd â'r dulliau ôl-ofal, trin priddoedd a hwsmonaeth ar y tir sydd wedi'i adfer. Dylid cynnwys mesurau yn y cynllun adfer i wneud iawn am effaith y cynigion datblygu ar fioamrywiaeth, yn cynnwys moch daear, ymlusgiaid, infertebratau, cynefinoedd glaswelltir asidig iseldir a thywod ac i adfer cloddiau a gwrychoedd.

5.54 Ymhlith yr amodau eraill fydd cyfyngiad ar glirio llystyfiant, llwyni a choed i osgoi cyfnodau nythu, bod gwrychoedd a chloddiau i'w tynnu o dan oruchwyliaeth ecolegydd cymwysedig a bod hydroleg y gwlyptir, y dyfnderoedd cloddio a lefelau dŵr daear ar safle bywyd gwyllt 'Rhif 596 De Minffordd' i gael eu monitro yn chwarterol.

5.55 Ar 7fed o Chwefror 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad o Bennod 6 o Polisi Cynllunio Cymru (PPW) sy'n ymdrin â seilwaith gwyrdd, gwerth net i fioamrywiaeth, mesurau i warchod Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a choed a choetiroedd. Mae'r newidiadau yn PPW wedi cael eu hystyried. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, nid ydynt yn codi unrhyw faterion newydd sy'n dylanwadu'n helaeth ar yr argymhelliad.

5.56 Gan ystyried yr uchod, mae bwriad y cais yn dderbyniol os ceir mesurau lliniaru priodol ac mae'n gyson â pholisïau AMG 5, AMG 6, PS 19 o'r CDLlC a TAN 5.

**Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**

5.57 O dan reoliad 63 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, mae'r ymgeisydd wedi darparu Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd gan fod safle'r cais o fewn tua 1.2km i SoDdGA 'Cors Llanllyfni' ac ACA 'Corsydd Eifionydd / Eifionydd Fens' ac o fewn 1km i SoDdGA ac ACA 'Glynllifon'.

5.58 Fel yr awdurdod cymwys o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd), rhaid i Gyngor Gwynedd gynnal asesiad cyn penderfynu rhoi caniatâd ar gyfer prosiect sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar y safleoedd dynodedig. Mae'r Uned Bioamrywiaeth wedi sgrinio'r cais ac mae'n cytuno nad oes effeithiau arwyddocaol tebygol ar unrhyw un o'r cynefinoedd cymwys o fewn yr ACA neu'r SoDdGA o'r amgylchedd dŵr gan y bydd y gwaith cloddio uwchlaw'r lefel trwythiad, gan fod arolygon wedi dangos nad oes gweithgarwch gan ystlumod ar y safle ac nad oes effeithiau cronnol ar y cyd â datblygiadau cyfagos eraill.

**Archeoleg a threftadaeth ddiwylliannol**

5.59 Mae polisïau PS20 ac AT 1 yn y CDLlC a TAN 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol yn rhoi awdurdodau lleol o dan ddyletswydd i asesu effeithiau datblygiadau newydd ar asedau treftadaeth a materion archeolegol. Mae Pennod 10 o'r Datganiad Amgylcheddol yn ymdrin ag Archeoleg a Threftadaeth Ddiwylliannol ac ymgymerwyd â gwaith ategol, yn cynnwys Asesiad Effaith Treftadaeth, Arolwg Geoffisegol a Thorri Ffos Arbrofol.

5.60 Cynhaliwyd arolwg desg (sydd wedi'i gynnwys yn yr Asesiad Effaith Treftadaeth) i ganfod asedau treftadaeth dynodedig yng nghyffiniau ardal y cais a'r rhai agosaf yw ffermdy a beudy Cae Efa Lwyd (Adeiladau Rhestredig Gradd II), Eglwys Sant Rhedyw (Adeilad Rhestredig Gradd II), maen hir Penybryn Mawr (Heneb Gofrestredig). Mae'r Asesiad Effaith Treftadaeth yn dod i'r casgliad na fydd bwriad y cais yn cael effaith niweidiol ar unrhyw nodweddion treftadaeth dynodedig yn y cyffiniau.

5.61 Yn unol â Chynllun Ymchwilio Ysgrifenedig, cynhaliwyd Arolwg Geoffisegol i asesu'r adnoddau archeolegol o fewn yr ardal datblygu arfaethedig. Mae'r bennod hon yn cynnig mesurau lliniaru dichonol, yn cynnwys canfod a chofnodi nodweddion archeolegol o fewn y man cloddio arfaethedig ac osgoi'r lloc crwn cynhanesyddol yn gyfan gwbl.

5.62 Mae Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd wedi adolygu'r wybodaeth a gyflwynwyd ac wedi darparu sylwadau ac argymell amodau. Fel y nodwyd yn ei hymateb i'r broses ymgynghori cyn ymgeisio, roedd pryderon nad oedd yr Asesiad Effaith Treftadaeth yn cyrraedd safon broffesiynol ar gyfer asesiad desg archeolegol. Yn ogystal â hyn, nid yw'r honiad bod 'archeoleg helaeth' yn annhebygol o fod yn bresennol yn cael ei ategu gan y dystiolaeth a gyflwynwyd. Mae olion archeolegol yn bresennol (yn benodol, y posibilrwydd bod lloc cynhanesyddol ac anheddiad bach) sydd wedi'u lleoli'n rhannol o fewn y man cloddio.

5.63 Nid yw Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd yn gwrthwynebu'r cais ar yr amod y bydd yr amodau canlynol yn cael eu gosod (os penderfynir rhoi caniatâd);

- Cyflwyno cynllun ymchwilio ysgrifenedig ar gyfer gwaith archeolegol cyn cychwyn y datblygiad (estyniad) a chwblhau'r gwaith yn unol â'r cynllun a gyflwynwyd.
- Cyflwyno adroddiad dadansoddol manwl am y gwaith archeolegol sy'n ofynnol o dan y caniatâd cyntaf o fewn 12 mis ar ôl cwblhau'r gwaith.

5.64 Ar ôl cynnwys yr amodau a mesurau lliniaru hyn, credir na fydd bwriad y cais yn cael effaith arwyddocaol ar asedau treftadaeth dynodedig a rhai heb eu dynodi ac felly ei fod yn gyson â pholisïau PS20, AT 1 ac AT 4 yn y CDLlC.

**Y Gymraeg**

5.65 Mae maen prawf 1 (a) ym mholisi strategol PS 1 *'Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig'* yn nodi y bydd angen cyflwyno Datganiad Iaith Gymraeg gyda chais am *"ddatblygiad manwerthu, diwydiannol neu fasnachol sy'n cyflogi mwy na 50 o weithwyr a/ neu gydag arwynebedd o 1,000 m. sg. neu fwy "*.

5.66 Mewn ymateb i'r angen hwn, mae'r ymgeisydd wedi darparu Datganiad Iaith Gymraeg. Ym mhennod 6 o'r datganiad, aseswyd effeithiau dichonol y datblygiadau ar yr iaith a'r gymuned ar sail iaith a symudiadau poblogaeth; elfennau gweledol; ansawdd bywyd a seilwaith cymunedol; cyflogaeth.

5.67 Mae pennod 7 o'r datganiad yn dod i'r casgliad bod gweithlu sefydledig ar safle Cae Efa Lwyd (ac yn Chwarel Cefn Graianog) sydd yn siaradwyr Cymraeg. Byddai bwriad y cais yn helpu i gynnal y gweithrediadau a chynnal y gweithlu presennol ac nid oes angen am fewnfudiad o weithwyr.

5.68 Cafwyd un gwrthwynebiad yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas ag arwyddion y chwarel. Mae'r arwyddion dan sylw yn galw'r safle yn 'Penygroes Quarry' yn Saesneg yn unig. Mae maen prawf 5 yn datgan *"Bydd y Cynghorau'n hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ardal y Cynllun. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy... Gosod disgwyliad y bydd enwau Cymraeg yn cael eu defnyddio ar gyfer datblygiadau newydd, enwau tai a strydoedd"*.

5.69 Ceir canllawiau pellach yn C31 yn y Canllaw Cynllunio Atodol 'Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy' sy'n datgan: *"Mae maen prawf 5 Polisi PS 1 yn annog datblygwyr i ddefnyddio enwau Cymraeg ar gyfer datblygiadau, enwau tai a strydoedd newydd er mwyn atgyfnerthu cymeriad ieithyddol cymunedau... Byddai defnyddio enw newydd sy'n deillio o gysylltiadau hanesyddol, daearyddol neu leol i'r ardal yn syniad da. Os yw'r enw presennol yn un gwreiddiol neu wedi bod yn enw ar yr eiddo ers amser maith, yn enwedig os yw'r enw'n un Cymreig, bydd y Cynghorau'n gofyn i'r sawl sy'n gwneud cais i roi enw newydd ar yr eiddo i ailystyried, hyd yn oed os yw'r enw newydd arfaethedig yn un Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r penderfyniad terfynol yn nwylo'r perchennog."*

5.70 Gan fod enw safle'r cais (Cae Efa Lwyd) yn gysylltiedig â ffermdy hanesyddol Cae Efa Lwyd Fawr gerllaw, credir ei bod yn rhesymol gofyn i'r ymgeisydd ystyried dangos hyn fel enw'r safle. Fel arall, os na chytunir ar hyn, yna bydd amod yn cael ei osod ar y caniatâd yn gofyn am ddangos y fersiwn Gymraeg o enw'r safle.

5.71 Mae Uned Iaith y Cyngor wedi darparu sylwadau yn argymell bod y safle yn defnyddio arwyddion dwyieithog ac nid yw o'r farn nad oes tystiolaeth o safbwynt economaidd cadarnhaol. Ar sail natur y cais a'r dystiolaeth sydd ar gael, nid yw'n cael ei ystyried yn debygol y byddai'r cais yn cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg. Felly, credir bod bwriad y cais yn gyson â pholisi PS 1 a'r canllawiau sydd yn y Canllaw Cynllunio Atodol 'Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy'.

**Yr economi**

5.72 Mae Nodyn Cyngor Technegol 23, Datblygu Economaidd yn datgan: '*Wrth ... benderfynu ar geisiadau cynllunio, mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol gofio mai dim ond rhan o'r gweithgarwch yn yr economi yw dosbarthiadau defnydd busnes traddodiadol B1-B8. Mae'n*

*bwysig bod y system gynllunio'n cydnabod yr agweddau economaidd ar bob datblygiad a bod penderfyniadau cynllunio'n cael eu gwneud mewn ffordd gynaliadwy gan bwyso a mesur ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd'*. Mae'n datgan ymhellach: '*Dylai awdurdodau cynllunio lleol adnabod arwyddion y farchnad ac ystyried yr angen am arwain datblygiad economaidd i'r lleoliad mwyaf priodol, yn hytrach nag atal neu beidio â chefnogi datblygiad o'r fath'*.

5.73 Mae bwriad y cais yn hanfodol ar gyfer cyflenwi mwynau ychwanegol i chwarel Cefn Graianog. Mae'r cwmni'n gwneud cyfraniad uniongyrchol a sylweddol i'r economi leol ac at gyflogaeth uniongyrchol/anuniongyrchol o ganlyniad i weithgareddau chwarela. Yn ogystal â hyn, drwy gadw gweithlu lleol ceir effeithiau cadarnhaol ar y diwylliant ac, yn fwy penodol, ar statws y Gymraeg yn y rhanbarth.

5.74 Felly, credir y byddai bwriad y cais yn cael effaith gadarnhaol ar economi'r ardal a'i fod yn gyson â pholisi PS 13 yn y CDLlC a TAN 23.

## 6. Casgliad

6.1 Mae'r cais hwn yn un am estyniad i'r man cloddio ym mhwll tywod a graean Cae Efa Lwyd. Fel a drafodwyd uchod, mae'r egwyddor o gael estyniad ochrol a chynnydd yn nifer y symudiadau gan gerbydau nwyddau trwm o'r safle yn un dderbyniol ac yn cael ei chefnogi gan bolisïau lleol MWYN 2, MWYN 3 a PS 22 yn y CDLlC ac ar lefel genedlaethol gan MTAN 1.

6. 2 Oherwydd y lleoliad, y raddfa a mesurau rheoli sefydledig ar gyfer sŵn, llwch a materion amgylcheddol, credir ei bod yn annhebygol y byddai'r datblygiad yn arwain at unrhyw effaith niweidiol ar amwynderau gweledol a phreswyl.

6.3 Mae'r prif ystyriaethau ecolegol yn ymwneud â mesurau lliniaru i ddiogelu moch daear, adar nythu ac ymlusgiaid. Mae CNC ac Uned Bioamrywiaeth yr awdurdod lleol ill dau wedi cadarnhau bod bwriad y cais yn dderbyniol ac, os gosodir amodau perthnasol, y bydd yn gyson â pholisi AMG 5 yn y CDLlC a TAN 5.

6.4 Bydd amodau yn ymwneud â gwaith archeolegol yn sicrhau mesurau digonol i liniaru effaith y datblygiad rhag achosi niwed i asedau treftadaeth neu nodweddion dynodedig, felly mae'n gyson â pholisïau PS 20, AT1 ac AT 4 yn y CDLlC.

6.5 Bydd y datblygiad yn arwain at gynnydd o 5 yn nifer y llwythi ar gerbydau nwyddau trwm bob diwrnod (i gyfanswm o 25). Ni chodwyd unrhyw wrthwynebiadau mewn perthynas â'r cynnydd yn nifer y symudiadau gan gerbydau nwyddau trwm o'r safle na'r trefniadau mynediad. Credir na fydd bwriad y cais yn cael effaith ar ddiogelwch y priffyrdd nac ar briffordd arfaethedig. Felly mae'r cais yn gyson â pholisi TRA 4 yn y CDLlC.

6.6 Byddai'r datblygiad yn cael effaith gadarnhaol fach ar yr iaith Gymraeg drwy sicrhau a chynnal cyflogaeth leol a chredir bod bwriad y cais yn gyson â pholisi PS 1 yn y CDLlC.

6.7 Felly, mae'r datblygiad arfaethedig yn gyson â'r holl bolisïau ac ystyriaethau cynllunio perthnasol ac argymhellir rhoi caniatâd cynllunio o dan amodau.

## 7. Argymhelliad

7.1 Dirprwyo pwerau i Bennaeth Adran yr Amgylchedd i gymeradwyo'r cais, o dan amodau yn ymwneud â'r canlynol:

1. 5 mlynedd
2. Parhad y gwaith – 10 mlynedd ar gyfradd o 125,000 o dunelli y flwyddyn
3. Yn unol â chynlluniau
4. Cyfyngu hawliau GPDO ar gyfer adeiladau, strwythurau, ffyrdd preifat, llifoleuadau, ffensys etc.
5. Copi o’r penderfyniad a’r cynlluniau a gymeradwywyd i’w ddangos yn swyddfa’r safle.
6. Cyfyngu’r llwythi a symudir o’r safle i 125,000 o dunelli y flwyddyn ar gyfradd uchaf o bump ar hugain (25) o lwythi cerbydau nwyddau trwm y diwrnod.
7. Wyneb y fynedfa o’r safle i’r briffordd sirol i gael ei gadw’n lân ac nid yw mwd/malurion i gael eu gollwng ar y briffordd.
8. Rhaid peidio â dod â deunyddiau (sbwriel neu ddeunyddiau gwastraff) i mewn i’r safle.
9. Marcio ffin y safle a’r parthau cloddio mwynau.
10. Oriau gweithio. Dim gweithrediadau ar ddydd Sadwrn, dydd Sul na Gwyliau Banc a Gwyliau Cyhoeddus heblaw am waith argyfwng, gwasanaethu a chynnal a chadw.
11. Rhaid gosod llenni dros lwythi yr holl gerbydau llwythog neu eu trin i osgoi allyrru llwch.
12. Cofnodi traffig.
13. Dim prosesu ar y safle.
14. Cyfyngiadau sŵn a chyfyngiadau sŵn mewn perthynas â gweithrediadau dros dro.
15. Mesurau gostegu sŵn.
16. Cadw ffensys acwstig a chadw byndiau.
17. Llystyfiant, uwchbridd ac isbridd i’w storio mewn bwnd sgrinio acwstig.
18. Monitro sŵn.
19. Cyfyngiadau ansawdd aer a monitro ansawdd aer.
20. Mesurau i leihau llwch a diweddaru’r cynllun ar gyfer monitro a rheoli llwch.
21. Gosod ffens dros dro am ffin y man cloddio mwynau.
22. Monitro dŵr daear.
23. Cyflwyno cynllun ymchwilio ysgrifenedig manwl ar gyfer gwaith archeolegol.
24. Cyflwyno adroddiad dadansoddol manwl am y gwaith archeolegol yn unol â’r cynllun ymchwilio ysgrifenedig.
25. Cynllun adfer.
26. Storio/rheoli priddoedd.
27. Dim pridd i’w symud o’r safle a’r pridd i gael ei ddefnyddio wrth adfer y safle.
28. Twmpathau storio pridd i’w cadw’n rhydd o chwyn.
29. Cyflwyno cynllun adfer a chynllun ôl-ofal 5 mlynedd.
30. Adfer yn unol â chynllun ôl-ofal a monitro 5 mlynedd.
31. Rhwygo’r tir i osgoi cywasgu.
32. Gwasgaru priddoedd yn y drefn gywir wrth adfer y safle.
33. Cynnal dadansoddiad cemegol o briddoedd wrth adfer y safle.
34. Dim da byw i gael eu cadw nes bydd y tir mewn cyflwr derbyniol.
35. Adolygiad blynyddol o weithrediadau ac ôl-ofal.
36. Cynllun adfer diwygiedig i’w gyflwyno i’r awdurdod cynllunio lleol os rhoddir y gorau i gloddio am fwynau cyn pryd am gyfnod o 12 mis.
37. Mesurau lliniaru ar gyfer moch daear, adar nythu, ymlusgiaid.
38. Cyfyngiad ar dynnu llystyfiant yn ystod tymor nythu adar.
39. Mesurau osgoi rhesymol i ddiogelu ymlusgiaid wrth ddymchwel waliau a therfynau caeau.
40. Mesurau i atal llygredd.
41. Casglu a gwaredu dŵr i gyfyngu ar yr hyn sy’n cael ei ryddhau i’r amgylchedd dŵr.
42. Cydymffurfio â chynllun rheoli dŵr wyneb.
43. Amod i alw’r safle wrth ei enw Cymraeg